Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 19 EBRILL 2022 am 2:00 y. p. | | TUESDAY, 19 APRIL, 2022 at 2:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans, Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **PENODI AELODAU LLEYG AR Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**3** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 3 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022.

**4** **HUNAN ASESIAD O ARFER DA Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 19 - 28)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**5** **CYLCH GORCHWYL DRAFFT Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 29 - 40)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**6** **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 41 - 50)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**7** **MATERION A RISGIAU SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW** (Tudalennau 51 - 62)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**8** **BLAEN RAGLEN WAITH DDANGOSOL 2022-23** (Tudalennau 63 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 19 Ebrill 2022 |
| **Pwnc:** | Penodi Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae angen i un rhan o dair o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn aelodau lleyg. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo a chadarnhau penodiad y tri aelod lleyg ychwanegol sydd eu hangen a pharhad yr aelod lleyg presennol ar gyfer ail dymor o bum mlynedd. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno diwygiadau i'r drefn perfformiad a llywodraethiant, yn cynnwys newidiadau i gyfansoddiad aelodaeth pwyllgorau a gweithdrefnau (adrannau 116-118). Mae'r Ddeddf yn nodi bod angen:

- un rhan o dair o aelodau'r Pwyllgor yn unigolion lleyg a bod dwy ran o dair yn aelodau o'r Cyngor.
- bod aelod o'r Pwyllgor yn cael ei benodi gan y Pwyllgor fel Cadeirydd (a rhaid iddynt fod yn aelod lleyg); a
- rhaid i aelod o'r Pwyllgor gael eu penodi gan y Pwyllgor fel Is-gadeirydd (ac ni ddylent fod yn aelod o bwyllgor gwaith yr awdurdod lleol na'n gynorthwyydd i'w bwyllgor gwaith).

1.2 Mae 'unigolyn lleyg' yn cael eu diffinio gan adran 117 o'r Ddeddf fel rhywun:

- nad ydynt yn aelod na'n swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol
- rhywun nad ydynt ar unrhyw adeg o fewn cyfnod o 12 mis, gan ddechrau gyda dyddiad penodi'r unigolyn hwnnw, wedi bod yn aelod o neu'n swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol; ac

- yn rhywun nad ydynt yn ŵr na gwraig na'n bartner sifil i unrhyw aelod neu swyddog o unrhyw awdurdod lleol.

1.3 O ran Cyngor Sir Ynys Môn, golygai hyn y bydd angen am bedwar aelod lleyg. Mae Mr Dilwyn Evans, sy'n aelod lleyg ar hyn o bryd, wedi mynegi ei ddymuniad i wasanaethu ail dymor pum mlynedd, sy'n rhywbeth a ganiateir yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a'r Cyfansoddiad).

1.4 Bydd angen tri aelod lleyg ychwanegol er mwyn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2. PROSES

2.1 Yn dilyn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel y nodwyd eisoes, derbyniodd y Cyngor 13 o ffurflenni cais.

2.2 Cynhaliodd panel, a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, ymarfer llunio rhestr fer ar 19 Ionawr 2022. Bu'r panel adnabod pedwar ymgeisydd ar gyfer eu cyfweld.

Bu panel, a oedd yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodrethu ac Archwilio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr presennol gyfweld y pedwar ymgeisydd ym mis Chwefror 2022. Bu'r panel ddewis y tri ymgeisydd canlynol i gael eu hystyried ar gyfer eu penodi:

- Michael Wilson, o Langefni, Ynys Môn
- Sharon Warnes, o Pwllheli, Gwynedd
- William Parry, o Rosneigr, Ynys Môn

2.3 Mae'r holl ymgeiswyr wedi derbyn eu gwahoddiad i gael eu hystyried ar gyfer eu penodi ac mae dau eirda derbyniol wedi eu derbyn ar gyfer pob un.

2.4 Yn unol â'r Cyfansoddiad presennol, paragraff 3.4.8.2.2, mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn argymell penodiad yr aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo:

- dewis a phenodiad y tri ymgeisydd fel aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn argymell eu penodiad i'r Cyngor Sir.

- yr argymhelliad i'r Cyngor mewn perthynas â pharhad yr aelod lleyg presennol am ail gyfnod o bum mlynedd.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Gwilym O. Jones, Dylan Rees, Margaret Roberts, Alun Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (AO)<br>Rheolwr Adfywio (DLl)<br>Rheolwr Tîm TG (MH)<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ)<br>Peiriannydd Diogelwch Seiber TGCh (CCT)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Jeremy Evans (Archwilio Cymru), Mathew Brushett (Archwilio Cymru), Nick Selwyn (Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Bethan Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo), Marc Davies (Rheolwr Seilwaith TG), Nannette Williams (Prif Archwilydd), Andrew Lewis (Uwch Archwilydd), Nia Rogers (Uwch Archwilydd), Gwyndaf Dale (Hyfforddai Diogelwch ac Awtomatiaeth TGCh) |

---

DRAFT

## 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi – mewn perthynas ag eitem 9 yn y cofnodion, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad oedd unrhyw newidiadau pellach i'r Cod Llywodraethu Lleol ac y byddai'r Cod yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth, 2022.

## 3. DIWEDDARIAD AR RECRIWTIO AELODAU LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Risg ac Archwilio i ddiweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd at 25 Ionawr 2022, o ran recriwtio aelodau lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yn fyr cafwyd crynodeb gan y Pennaeth Archwilio a Risg o ofynion y Ddeddf yn nhermau cyfansoddiad aelodaeth a gweithgareddau'r pwyllgor. Ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn mae hyn yn golygu y bydd rhaid cael pedwar aelod lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cadarnhaodd bod Mr Dilwyn Evans, sydd yn aelod lleyg ar hyn o bryd, wedi datgan ei fod yn fodlon gwasanaethau am ail dymor, felly bydd angen tri aelod lleyg ychwanegol. Cymerodd y Cyngor ran yng Ngrŵp Tasg a Gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddatblygu ffurflen gais a hysbyseb ar gyfer recriwtio aelodau lleyg, yn ogystal â rhaglen hyrwyddo genedlaethol. Derbyniodd y Cyngor 13 ffurflen gais a dewisodd y panel llunio rhestr fer, a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, bedwar ymgeisydd i'w cyfweld . Bydd panel cyfweld yn cyfweld yr ymgeiswyr ym mis Chwefror 2022. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Dirprwy Brif Weithredwr. Yn unol â Cyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn argymell penodi'r aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, 2022.

**Penderfynwyd nodi'r cynnydd a wnaed o ran recriwtio'r tri aelod lleyg ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2022 ymlaen.**

## 4. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23 yn cynnwys y cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Datganiad ar y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf Blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys a'r cynlluniau cyfalaf a Dangosyddion Darbodus cysylltiedig.

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn amlinellu strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf, sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthyca, yn pennu cyfres o ddangosyddion darbodus i sicrhau bod cynlluniau cyfalaf y Cyngor yn fforddiadwy ac yn penderfynu archwaeth risg a strategaeth y Cyngor mewn

DRAFT

perthynas â rheoli ei fuddsoddiadau. Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.

Yn y bôn mae'r Strategaeth ar gyfer 2022/23 yn delio â dau brif faes - materion cyfalaf a materion rheoli trysorlys ac mae'n ystyried y ffactorau allweddol mewn perthynas â phob maes a'r modd y maent yn llunio'r strategaeth a dull Rheoli Trysorlys.

Wrth gyflwyno'r adroddiad cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nad oes newidiadau'n cael eu cynnig i'r egwyddorion craidd yn Natganiad 2021/22 ac amlygodd y canlynol –

- Y cefndir economaidd (ynghlwm yn Atodiad 3) a'r rhagolygon cyfradd llog hyd at fis Mawrth 2025 a'r goblygiadau i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys.
- Y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 i 2024/25 fel y nodir yn nabl 3 yn yr adroddiad yn cynnwys gwariant cyfalaf arfaethedig, sut y caiff ei gyllido a'r balansau a fydd yn cael eu hariannu drwy fenthyca dros y tair blynedd.
- Effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC) a lefel y benthyca allanol a mewnol fel y nodir yn Nhabl 4 yn yr adroddiad sy'n rhagweld cynnydd mewn benthyca allanol dros y tair blynedd nesaf ond sydd yn dal i fod oddi mewn i'r paramedrau derbyniol.
- Mae'r strategaeth fenthyca yn cadarnhau sefyllfa o dan-fenthyca ar hyn o bryd ac mae angen mabwysiadu dull bragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid h.y. os teimlir bod risg sylweddol o gwymp sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio, ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny. I'r gwrthwyneb, os teimlir bod risg sylweddol o gynnydd llawer uwch yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr nag a ragwelir ar hyn o bryd, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu.
- Agwedd y Cyngor tuag at fenthyca ymlaen llaw i gwrdd â'i anghenion sy'n cadarnhau nad yw'r Cyngor yn benthyca dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Wrth benderfynu a ddylid benthyca cyn bod angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraff 7.4.2 yn yr adroddiad yn ofalus.
- Mae'n annhebygol y gellir aildrefnu benthyciadau gan fod gwahaniaeth mawr iawn o hyd rhwng cyfraddau ad-dalu cynamserol a chyfraddau benthyca newydd.
- Agwedd y Cyngor tuag at fuddsoddiadau os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o godi'n sylweddol yn ystod y cyfnod amser dan sylw, yna rhoddir ystyriaeth i gadw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau fel rhai tymor byr neu amrywiadwy. Ar y llaw arall, os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o ostwng o fewn y cyfnod hwnnw, ystyrir manteisio ar y cyfraddau uwch sydd ar gael ar y pryd a chadw'r buddsoddiadau i mewn am gyfnodau hwy. Y strategaeth ar gyfer rheoli buddsoddiadau yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros elw ar fuddsoddiadau.
- Y modd y caiff risg ei reoli a chadarnhad bod y Cyngor hwn wedi mabwysiadu ymagwedd ddarbodus tuag at reoli risg. Ceir diffiniad o'i archwaeth risg yn adran 8.2.4 yn yr adroddiad o ran teilyngdod credyd gwrth bartïon, cyfyngiadau benthyca a statysau credyd sy'n cael eu monitro'n ddyddiol.
- Y trefniadau llywodraethu a rheoli ar gyfer prosesau rheoli trysorlys, penderfyniadau a pherfformiad.
- Y Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn Atodiad 12 yn yr adroddiad yn ymwneud â fforddiadwyedd a darbodusrwydd ac sy'n gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyled allanol a strwythur dyledion.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151ynlgyn â'r canlynol–



DRAFT

- Mae llawer o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r rhagolygon economaidd oherwydd chwyddiant, cynnydd mewn prisiau ynni, prinder cyflenwadau, rhai materion yn ymwneud â Brexit sydd yn dal heb eu datrys, tensiynau yn Nwyrain Ewrop ac yn San Steffan yn ogystal â phryderon o ran adfer yr economi a'r posibilrwydd o newidiadau pellach o ganlyniad i Covid.  Y gobaith yw y caiff y materion hyn eu datrys yn ystod misoedd yr haf ac erbyn yr hydref fel bod y sefyllfa economaidd yn dod gliriach ac yn fwy sefydlog. Gostyngodd prisiau yn ystod y cyfnodau clo yn 2021 ac felly roedd cynnydd chwyddiannol yn ddisgwyliedig. Ac er bod disgwyl i chwyddiant ostwng mae risg y gallai barhau i gynyddu am gyfnod hwy o ganlyniad i gostau byd-eang a chostau ynni uchel; bydd y modd y caiff ei reoli'n ffactor allweddol. Ar y cyfan mae disgwyl i 2022 fod yn flwyddyn heriol yn economaidd.
- Bydd yr adroddiad monitro i'r Pwyllgor Gwaith ar y Gyllideb Cyfalaf ar gyfer Chwarter 3 2021/22 yn cadarnhau llithriad parhaus yn y rhaglen gyfalaf o ganlyniad i gynlluniau sydd heb wneud cymaint o gynnydd ag y disgwyl a gellir priodoli hyn i nifer o ffactorau yn amrywio o ystyriaethau'n gysylltiedig â gwerth gorau am arian i gynnydd mewn prisiau tendro i oedi yn y broses gynllunio. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo o hyd i gyflawni'r ymrwymiadau sydd yn ei raglen gyfalaf dros dymor y cynllun ac mae'n bwriadu benthyca i gyflawni'r amcan hwnnw.
- Mae grantiau tai cymdeithasol nawr ar gael i awdurdodau lleol yn ogystal â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ond maent yn cynrychioli elfen fach o'r cyllid. Caiff gwariant cyfalaf ar stoc dai'r Awdurdod ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai yn seiliedig ar yr incwm rhent blynyddol sydd hefyd yn ariannu'r gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a chostau benthyca. Caiff pob datblygiad tai arfaethedig ei asesu yn seiliedig ar hynny ac mae modd ei addasu ar gyfer rhai datblygiadau h.y. parodrwydd i ad-dalu'r costau am gyfnod hwy os gellir dangos bod angen y datblygiad ar frys mewn ardal benodol gan wybod y bydd rhaid cwrdd â chostau ad-dalu datblygiadau eraill dros gyfnod byrrach. Mae'r Awdurdod yn gwneud cais am gyllid grant ar gyfer pob un o'i ddatblygiadau tai ac mae grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu tai arloesol neu wyrdd.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23 ac anfon y Datganiad Rheoli Trysorlys ymlaen i'w Pwyllgor Gwaith heb sylwadau pellach.**

## 5. ARCHWILIO ALLANOL: COMISIYNU LLEOLIADAU MEWN CARTREFI GOFAL I BOBL HŶN

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru a oedd yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Adroddodd Mr Jeremy Evans, Archwilio Cymru bod yr adolygiad wedi edrych ar y modd y gall aelodau o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gydweithio i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn (defnyddir y term cartrefi gofal i adlewyrchu pob math o gartrefi gofal preswyl a nyrsio mewn ystyr cyffredinol). Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) i rym ar 6 Ebrill 2016 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau a byrddau iechyd gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn eu hardal. Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau gan gynnwys ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia. Yng Ngogledd Cymru, mae'r BPRh yn cynnwys y partneriaid statudol – Cynghorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn gynnar yn 2020, fe wnaeth Archwilio Cymru nodi bod mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn risg i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd am y rhesymau a nodwyd ym mharagraff 5 yn yr adroddiad. Cwblhawyd gwaith maes ym mis



DRAFT

Chwefror a Mawrth 2021 ac wrth dynnu'r negeseuon ynghyd canfuwyd bod y fframweithiau polisi a deddfwriaeth yn arwain at ffordd o weithio sydd yn effeithio ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaethau. Er na chynhaliwyd adolygiad o'r Byrddau Partneriaeth yng Nghymru, disgwylir y bydd nifer o'r canfyddiadau a heriau a amlygwyd yn yr adolygiad ar gyfer Gogledd Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n genedlaethol i ryw raddau.

Mae'r negeseuon allweddol a chasgliadau cyffredinol yr adolygiad fel a ganlyn –

- Mae partneriaid yn cydweithio i ddarparu gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed ond maent yn cario risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â sefydlogrwydd y farchnad, y gweithlu, a threfniadau cyn lleoli, ynghyd â dibyniaeth ar brynu ar y pryd.
- Roedd Datganiad Siapio'r Farchnad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2018 yn nodi rhai dyheadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yr ychwanegwyd atynt gan ymateb y BPRh i 'Cymru Iachach' yn 2019; fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall o'r rhain wedi llywio datblygiad strategaeth ranbarthol eglur ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru na chynllun cyflawni i fwrw ymlaen â'r dyheadau a nodwyd.
- Er bod rhwydwaith y BPRh yn dod â phartneriaid ynghyd i 'feddwl yn rhanbarthol', mae ei strwythurau, a bennwyd i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, yn helaeth a chymhleth, ac mae angen cryfhau llinellau atebolrwydd.
- Mae strwythurau ffioedd a bennir yn genedlaethol yn gymhleth ac yn arwain at ffocws sylweddol ar gost sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd.
- Mae angen i bartneriaid wneud mwy i ddangos eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth gomisiynu darpariaeth mewn cartrefi gofal a gwneud lleoliadau unigol.

Mae Archwilio Cymru wedi adrodd ar wahân i Lywodraeth Cymru ac y mae wedi argymell y camau y dylai eu cymryd i wella'r fframwaith y mae partneriaid rhanbarthol yn gweithredu oddi mewn iddi ac y mae wedi ei herio i edrych ar rai o'r gofynion deddfwriaethol allweddol wrth adolygu gofal cymdeithasol ac iechyd yn ei Bapur Gwyn - Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn sicr bod y newidiadau y mae'n eu cynnig yn mynd yn ddigon pell i ddatrys rhai o'r heriau hirsefydlog a nodwyd ac a adroddwyd arnynt - yn benodol cymhlethdodau'r dulliau cyllido a'r angen am fwy o eglurder ynghylch cronfeydd cyfun; craffu ac atebolrwydd gwell mewn perthynas â gweithgareddau a phenderfyniadau'r BPRh a sefydlu fframwaith ar gyfer gwerthuso cynnydd y BPRh i gwrdd â golau llesiant.

Tra bo Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb ar gyfer gwella, mae'n bwysig bod partneriaid yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, yn ystyried eu rôl eu hunain yn y broses. Yng ngoleuni'r gwariant sylweddol ar ofal gan gynghorau a BIPBC, rhaid i'r Cyngor fod yn sicr bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth a'i fod yn cyfrannu tuag at adeiladu sector gofal mwy cynaliadwy sy'n darparu gwahanol fathau o ofal ar gyfer dinasyddion heddiw ac yfory. I'r perwyl hwn mae'r adroddiad yn cynnwys 5 argymhelliad ar gyfer y cynghorau â'r Bwrdd Iechyd sydd wedi'u nodi ar ddiwedd yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jeremy Evans am gyflwyno'r adroddiad a'r canfyddiadau a chydnabod y gwaith sylweddol y tu ôl i gynhyrchu'r adroddiad. Yn ystod y drafodaeth ddilynol codwyd y pwyntiau canlynol –

- Cyfeiriwyd at y cynlluniau byw'n annibynnol ac at ddarpariaeth Gofal Tai Ychwanegol y Cyngor ar gyfer pobl hŷn a gofynnwyd pa un ai y dylid annog datblygiadau o'r math hyn a modelau tebyg fel opsiynau mwy cost effeithiol a chynaliadwy er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd.



DRAFT

Cadarnhaodd Mr Jeremy Evans bod yr ymateb yng ngogledd Cymru i "Cymru Iachach" yn adlewyrchu newid tuag at annog pobl i aros yn eu cymunedau am gyfnod hwy drwy ddarparu gofal cartref a / neu sefydliadau gofal ychwanegol. Ochr arall i'r geiniog yw bod gan bobl anghenion mwy dwys erbyn iddynt fynd i gartref gofal ac felly mae angen darpariaeth mwy arbenigol, rhywbeth nad ydi'r rhan fwyaf o gynghorau'n gallu'i ddarparu'n agos at adref ac felly mae'n bwysig cael strategaeth ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru i gefnogi cynllunio gofal. Rhaid i gynghorau benderfynu beth yw eu hanghenion er mwyn cael cydbwysedd o ran y gwahanol fathau o ofal y mae ei angen arnynt yn eu cartrefi gofal ac er mwyn datblygu cynllun i'w cyfeirio o'r man y maent ar hyn o bryd, a all olygu bod â gormod o ddarpariaeth gofal preswyl nag sydd ei angen ar gyfer y dyfodol, i ble yr hoffent fod sef bod â darpariaeth gofal mwy arbenigol.

- Mewn perthynas â strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Atodiad 1 yn yr adroddiad) roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai beri dryswch i ddefnyddiwr gwasanaeth, a chodwyd pryder ynglŷn â chostau rhedeg strwythur o'r fath a hefyd y gallai trefniant mor gymhleth wneud bywyd yn anoddach mewn perthynas â chwrdd ag anghenion gofal defnyddwyr gwasanaethau.

  Cynghorodd Mr Jeremy Evans bod strwythur y BPRh wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru'n bennaf a chan ei fod yn cynnwys saith prif bartner ac yn cael ei gefnogi gan lu o grwpiau a sefydliadau eraill mae'n gymhleth, ac yn gallu peri dryswch. Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad yw er bod y BPRh yn dod â phartneriaid ynghyd mae maint a gweithrediad y strwythur yn golygu'i fod yn drwsgl ac yn cyflwyno sawl her. Mae'n faes y mae Archwilio Cymru wedi'i amlygu a dylai Llywodraeth Cymru edrych arno er mwyn ei symleiddio a'i wneud yn fwy effeithiol.

- Wrth nodi bod ymdrech wedi bod i sefydlu partneriaethau gwaith mewn sawl maes, roedd y Pwyllgor yn dymuno gwybod beth oedd y prif wersi yn sgil yr adolygiad hwn o ran rhoi model cydweithio rhanbarthol ar waith ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill.

  Cynghorodd Mr Jeremy Evans o ran yr adroddiad, bod Archwilio Cymru wedi amlygu bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir ynglŷn â'r disgwyliadau ar gyfer partneriaethau (y BPRh yn achos yr adroddiad hwn) fel y gellir mynd ati'n wrthrychol i werthuso cynnydd yn erbyn yr amcanion a osodir a chael mesurau ar waith i ddangos cynnydd o ran cyflawni nodau a dyheadau Llywodraetha Cymru ar gyfer trefniadau cydweithio penodol. Mae modd i bartneriaethau gwaith rhanbarthol fod yn gynhyrchiol ac effeithiol fel yn achos Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac yn ystod yr adolygiad daeth Archwilio Cymru o hyd i lywodraethiant cadarn, cynnydd da o ran datblygu rhaglen y Swyddfa Portffolio a hyblygrwydd o ran addasu'r cyd-desun y mae'r Bwrdd yn gweithredu ynddo. Rhaid i'r BPRh fod yn debyg o ran statws gyda llywodraethiant da, atebolrwydd a chyswllt rhwng sefydliadau partner ac mae'r rhain yn agweddau y gall y Cyngor helpu i'w datblygu fel un o brif bartneriaid y Bwrdd.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion bod profiad y gwasanaeth yn Ynys Môn yn cefnogi canfyddiadau'r adolygiad mewn perthynas â lleoliadau gan fod pobl yn dod i mewn i ofal preswyl gydag anghenion mwy cymhleth ac maent yn dueddol o aros mewn gofal am lai o amser. Fel Awdurdod, er yr hoffai Ynys Môn ddatblygu ychwaneg o dai gofal ychwanegol neu debyg i alluogi unigolion i aros mewn awyrgylch cartrefol cyhyd ag y bo modd, mae'n cydnabod y daw adeg pan na fydd hynny'n bosibl ac y bydd rhaid i unigolion dderbyn gofal arbenigol mewn cartref preswyl. Mae'r argymhellion wedi cael eu hystyried yn ofalus ac mae consensws ynglŷn â chyfeiriad y daith yn gyffredinol.

Fel Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a chynrychiolydd y Cyngor ar y BPRh a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru amlygodd y Cynghorydd Llinos Medi'r

gwahaniaeth rhwng y byrddau a phwysleisiodd bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi datblygu'n naturiol o'r gwaelod i fyny mewn ymateb i'r angen i ddatblygu economi'r rhanbarth tra bod y BPRh yn deillio o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Holodd ynghylch gallu'r BPRh i gyflawni'r gwahaniaethau a argymhellir yn yr adroddiad yn ei ffurf bresennol a chyfeiriodd at yr heriau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chomisiynu cartrefi gofal drwy gyllidebau cyfun a goblygiadau'r gofynion gweinyddol ychwanegol a pha un ai a oes modd sicrhau gwerth gorau am arian. Dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi mai anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yw'r prif flaenoriaeth a bod hynny mewn perygl o gael ei golli oherwydd strwythur y BPRh. Mae cydweithio'n gweithio orau yn ei barn hi pan mae'r dull o gydweithio'n cael ei gytuno gan y partneriaid nid pan mae'n cael ei orfodi arnynt.

Roedd Mr Jeremy Evans yn cydnabod bod man cychwyn y Bwrdd Uchelgais yn wahanol i fan cychwyn y BPRh ac oherwydd ei fod yn ddeddfwriaeth mae'r olaf yn anoddach i'w addasu i gwrdd ag anghenion lleol, pwynt sy'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad ac yn yr argymhellion i Lywodraeth Cymru; (ac fe anogodd aelodau'r Panel i edrych ar yr wybodaeth). Mae'r rhain yn herio Llywodraeth Cymru ynglŷn ag effeithlonrwydd â gallu'r BPRh i gyflawni a hefyd ymarferoldeb y disgwyliad i weithredu gyda chyllidebau cyfun. Mae'r modelau cyllido gofal a'r systemau sy'n eu cynnal yn gymhleth oherwydd y gwahanol fathau o leoliadau gofal sydd ar gael ac maent yn eistedd o oddi mewn i strwythur cymhleth, sef y BPRh. Mae'r adroddiad a'r argymhellion yn ceisio annog cynghorau i symleiddio cymaint o'r prosesau hyn â phosibl ac i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei ddiwygiadau polisi'n mynd yn ddigon pell i ddatrys yr heriau a nodwyd fel bod y broses yn haws a rhwyddach i ddefnyddwyr gwasanaeth, sef pobl hŷn a bregus.

**Penderfynwyd nodi canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad gan Archwilio Cymru mewn perthynas â chomisiynu lleoliadau cartrefi gofal, ac i ddiolch i Mr Jeremy Evans am y cyflwyniad a'r eglurhad a roddwyd.**

**6. ARCHWILIAD ALLANOL: LLYTHYR MEWN PERTHYNAS Â THREFNIADAU GWRTH-DWYLL**

- Cyflwynwyd llythyr gan Gyfarwyddwr Ymgysylltu Archwilio Cymru, dyddiedig 19 Mawrth, 2020 i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â threfniadau gwrth-dwyll i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Gosododd Mr Jeremy Evans y llythyr yn ei gyd-destun, sef adolygiad ar lefel uchel o drefniadau gwrth-dwyll ar draws 40 o sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol. Diben yr adolygiad oedd canfod a yw'r trefniadau ar gyfer atal a darganfod twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol. Roedd y gwaith maes lleol yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys gwerthusiad ar lefel uchel o drefniadau gwrth-dwyll y Cyngor, yn seiliedig ar adolygu dogfennau, hunanasesiad a gwblhawyd gan y Cyngor, a rhai cyfweliadau gyda swyddogion perthnasol.

Ysgrifennodd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu at y Prif Weithredwr i nodi rhai o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad yn fwy ffurfiol oherwydd bod cyfleoedd i gryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor wedi dod o'r amlwg er y cydnabuwyd bod adnoddau'r Cyngor yn gyfyngedig. Roedd o'r farn y byddai'r Cyngor yn elwa o'r canlynol –

- diweddaru'r polisïau a chynlluniau perthnasol yn cynnwys y polisi gwrth-dwyll a llygredigaeth a'r cynllun ymateb i dwyll;
- hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll da a chodi ymwybyddiaeth o dwyll ymhlith staff;
- cynnal asesiad risg cynhwysfawr o dwyll;
- ystyried y risg o dwyll fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli risg;



DRAFT

- datblygu rhaglen flynyddol o waith gwrth-dwyll rhagweithiol sy'n ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg;
- cyfleu'n glir y strwythur, y rolau a'r cyfrifoldeb mewn perthynas ag atal twyll er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y llinellau atebolrwydd yn glir;
- ystyried system gorfforaethol o reoli achosion;
- ystyried defnyddio dadansoddiadau data'n rheolaidd i ddilysu data;
- ystyried ffyrdd o ddarparu lefel briodol o wybodaeth yn ymwneud â thwyll ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, a sut y gall y Pwyllgor Archwilio gymryd rôl ragweithiol mewn hyrwyddo materion gwrth-dwyll;

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn nodi ymateb y Cyngor i'r llythyr gan Gyfarwyddwr Ymgysylltu Archwilio Cymru i'w ystyried gan y Pwyllgor.

  Bu i'r Pennaeth Archwilio a Risg gadarnhau bod cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r argymhellion a'i fod ar gael yn Atodiad 1 yn yr adroddiad. Eglurodd bod y llythyr gan Archwilio Cymru wedi'i dderbyn ar ddechrau'r pandemig Covid 19 wedi i bob darn o waith nad oedd yn hanfodol gael ei ohirio ac wedi i staff Archwilio Mewnol gael eu hadleoli o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, cyflwynwyd y Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd i'r Pwyllgor a chafodd ei gymeradwyo ganddo yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, 2021 ac mae'n ymdrin â'r holl faterion a godwyd gan Archwilio Cymru ac eithrio caffael system rheoli achosion. Ystyrir had yw hynny'n berthnasol i Ynys Môn gan nad yw nifer yr achosion (un neu ddau achos bob blwyddyn) yn cyfiawnhau'r gost o gaffael system rheoli achosion ac ni fyddai'n cynrychioli gwerth gorau am arian. Hefyd, mae'r polisi ar gyfer Atal Twyll a Llwgrwobrwyo yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor ac o'r herwydd mae'r polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses flynyddol i adolygu'r Cyfansoddiad. Mae pedwar o'r deg argymhelliad wedi'u gweithredu a bydd y pum argymhelliad sydd yn weddill yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn; adroddir ar unrhyw gynnydd yn yr adroddiad diwedd blwyddyn.

  Er y cydnabyddir bod y pandemig Covid-19 wedi amharu ar fusnes arferol, holodd y Pwyllgor am y 3 blynedd o oedi o ddyddiad derbyn y llythyr cyn rhoi'r argymhellion ar waith. Aeth y Pwyllgor ymlaen i ofyn a oedd cyflwyno trefniadau gweithio gartref ar gyfer mwyafrif y staff wedi cynyddu'r risg o dwyll a chyfleoedd i gyflawni twyll a chyfeiriwyd yn benodol at y symiau sylweddol o arian a gollwyd gan y Llywodraeth Ganolog oherwydd ceisiadau cymorth Covid twyllodrus.

  Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod aelod o'r tîm Archwilio Mewnol wedi cael ei secondio i dîm grantiau'r Gwasanaeth Ariannol a oedd yn delio gydag a dosrannu'r grantiau cymorth i fusnesau yn ystod y pandemig. Mae hyn yn rhoi rywfaint o sicrwydd i ni ac yn cynyddu'n gallu i ganfod twyll. Hyd yma ni chanfuwyd unrhyw achos o dwyll wrth wirio taliadau ar ôl eu gwneud. Hefyd, er mwyn delio â'r pandemig bu'n rhaid i ni flaenoriaethu ein hadnoddau a'n hymdrechion, ac ar yr adeg barnwyd nad oedd y materion a godwyd yn y llythyr gan Archwilio Cymru yn flaenoriaeth.

  **Penderfynwyd nodi'r materion a godwyd gan Archwilio Cymru ynghyd â'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru mewn perthynas ag atal twyll.**

DRAFT

**7. ARCHWILIO ALLANOL: ADRODDIAD ADFYWIO CANOL TREFI YNG NGHYMRU – ARGYMHELLION AC YMATEB**

- Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru i'w ystyried gan y Pwyllgor a oedd yn amlygu prif ganfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn rheoli ac yn adfywio canol eu trefi.

Amlinellodd Mr Mathew Brushett, Archwilio Cymru gyd-destun yr adroddiad a'r dull a methodoleg archwilio a oedd yn cynnwys edrych ar nifer o raglenni adfywio a strategaethau adfywio presennol ledled cynghorau yn ogystal â chyfweld swyddogion adfywio arweiniol. Roedd yr holl dystiolaeth a oedd yn sail i'r adolygiad ar gael yn Atodiad 1 yn yr adroddiad. Cynhyrchwyd offeryn adolygu i alluogi cynghorau i hunanasesu eu dulliau presennol a nodi meysydd lle mae angen gwaith pellach ynghyd ag offeryn data rhyngweithiol.

Mae negeseuon allweddol a chasgliadau cyffredinol yr adolygiad fel a ganlyn–

- Mae canol trefi wrth wraidd bywyd Cymru ac maent yn gallu bod yn lleoedd bywiog a chynaliadwy, ond mae mynd i'r afael â'r heriau lawer sy'n eu hwynebu yn mynnu penderfyniadau dewr ac arweinyddiaeth uchelgeisiol;
- Mae twf mannau manwerthu y tu allan i'r dref, colli 'gwasanaethau hanfodol' fwyfwy o ganol trefi – banciau, swyddfeydd post a gwasanaethau cyhoeddus – a thwf siopa ar-lein wedi cyfrannu at ddirywiad cyson llawer o ganol trefi. Ac mae'r pandemig wedi ychwanegu at y problemau hyn.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn uniongyrchol yn ystod y saith mlynedd diwethaf i helpu i adfywio canol trefi. Er y cyllid hwn, mae canol trefi'n aml mewn trafferth.
- Mae adfywio canol trefi yn flaenoriaeth genedlaethol o hyd, ond nid yw polisi 'canol tref yn gyntaf' Llywodraeth Cymru wedi'i wreiddio'n llawn eto.
- Awdurdodau lleol yw'r cyrff cyhoeddus allweddol i helpu i adfywio canol trefi, ond yn aml nid oes ganddynt allu na sgiliau i gyflawni'r adfywio cynaliadwy sydd ei angen.
- Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i flaenoriaethu ac arwain ar gynllunio lleoedd, ond mae angen iddynt fod yn glir ynghylch diben canol eu trefi a chynnwys partneriaid yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, cynghorau tref a chymuned, cymunedau a busnesau mewn penderfyniadau.
- Bydd yn rhaid hefyd i awdurdodau lleol ymyrryd mwyfwy i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol trefi.

Mae'r adroddiad yn gwneud chwe argymhelliad ledled Cymru sydd wedi'u nodi yn Arddangosyn 3 ond gellir eu crynhoi fel hyn –

- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Ardrethi Annomestig er mwyn sicrhau bod y system yn adlewyrchu amodau canol trefi yn well pan ddaw gwyliau'r taliadau i ben ym mis Mawrth 2022
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu heriau trafnidiaeth sy'n wynebu canol trefi a chytuno ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain
- Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso mynediad awdurdodau lleol at gyllid drwy liflinio a symleiddio prosesau ac amodau grantiau; darparu dyraniadau aml-flwyddyn; darparu cymorth refeniw yn ogystal â chyfalaf i helpu i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau a chapasiti staff
- Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio pwerau gorfodi, cymorth ariannol ac adennill dyledion sy'n bodoli eisoes yn effeithiol a chyson, i gefnogi gwaith adfywio ar draws adrannau.



DRAFT

- Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ddull ‘Canol Trefi yn Gyntaf’ yn ymarferol, ei ddisgwyliadau gan bartneriaid a'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd i wireddu'r uchelgais hwn.
- Dylai awdurdodau lleol fod yn barod i dderbyn newidiadau a chynllunio i reoli'r newidiadau i ganol trefi a defnyddio offeryn adfywio Archwilio Cymru i hunanasesu eu dulliau presennol o nodi lle mae angen iddynt wella eu gwaith ar adfywio canol trefi.

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn nodi ymateb y Cyngor i adroddiad ac argymhellion Archwilio Cymru ar gyfer Adfywio Canol Trefi yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer hunanasesu i nodi meysydd ar gyfer gwella a/neu waith pellach mewn ymateb i’r chwe argymhelliad yn adolygiad Archwilio Cymru. Mae canlyniad yr ymarfer hwn yn dangos bod yr awdurdod yn ymgymryd â phob un o'r 38 maes gwaith. Nodwyd manylion y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un yn cynnwys unrhyw rwystrau o ran cynnydd.

Bu i Mr Mathew Brushett groesawu’r hunanasesiad fel gwerthusiad gonest o sefyllfa bresennol yr Awdurdod yn cynnwys cydnabod cryfderau a gwendidau ac roedd yn awgrymu y byddai hefyd yn fuddiol petai Sgriwtini’n archwilio’r agweddau lle mae angen gwaith pellach a sut y gellir mynd i’r afael â hwy a throsi’r hunanasesiad yn gynllun gweithredu gyda chamau gweithredu mesuradwy ac amserlenni er mwyn symud materion yn eu blaenau.

Wrth drafod yr adroddiad fe wnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol –

Wrth gydnabod bod angen agwedd gydlynol rhwng yr holl randdeiliaid er mwyn adfywio canol trefi, roedd y Pwyllgor yn dymuno cael eglurder ynglŷn â rôl y Cyngor a pha un ai a oedd disgwyliad bod y Cyngor yn chwarae rôl arweiniol bob amser neu a ddylai fod yn cefnogi sefydliadau eraill.

Cynghorodd Mr Nick Selwyn, Archwilio Cymru ei fod yn debygol o fod yn gyfuniad o’r ddau a chyfeiriodd at enghreifftiau yn yr adroddiad lle'r oedd y ddau ddull yn effeithiol. Mae nifer o fecanweithiau da eisoes wedi cael eu rhoi ar waith mewn cymunedau yng Nghymru a chyfeirir at rai ohonynt yn yr adroddiad. Y man cychwyn yw sgwrs ynglŷn â dyheadau’r Awdurdod ac yna dod o hyn i’r mecanweithiau gorau i gyflawni newid ar lawr gwlad ac un o’r agweddau allweddol yw cynnwys y bobl amrywiol a fydd yn elwa ac yn defnyddio’r trefi.

- Pa un ai a oedd rôl twristiaeth o ran adfywio canol trefni wedi cael ei ystyried wrth gynnal yr adolygiad. Amlygodd yr Is-gadeirydd y byddai wedi hoffi gweld mwy o enghreifftiau yn yr adroddiad o drefi a oedd wedi cael eu hadfywio’n llwyddiannus ar lefel byd-eang yn ogystal â chenedlaethol er mwyn dysgu gwersi o ran beth sydd wedi gweithio orau.

Cyfeiriodd Mr Nick Selwyn y Pwyllgor at adroddiad a baratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan yr Athro Karel Williams sy’n trafod y modd y mae marchnadoedd lleol yn newid yn seiliedig ar adolygiad manwl o dair cymuned; mae’r adroddiad yn cyfeirio at enghreifftiau o Ewrop a’r modd yr aethant hwy ati i adfywio. Mae adolygiad Archwilio Cymru yn cyd-fynd ag adolygiad yr Athro Williams yn hytrach na dyblygu ei adroddiad ehangach. Cadarnhaodd bod twristiaeth wedi cael ei ystyried wrth gynnal yr adolygiad ac mai’r ardaloedd sy’n ymddangos fel petaent yn ffynnu yw’r ardaloedd hynny sy’n denu ymwelwyr yn naturiol. Fodd bynnag, nid yw pob tref sy’n boblogaidd gydag ymwelwyr yn ffynnu a’r ffactor allweddol yw faint o gyswllt sydd gan yr ardaloedd hyn gyda’r gymuned ehangach a pha mor ddibynnol ydynt ar y gwasanaethau a ddarperir mewn cyd-destun ehangach.

DRAFT

- Pa un ai a oes gan y gronfa Codi'r Gwastad rôl i'w chwarae a pha wahaniaeth y mae'n debygol o'i wneud yn y tymor hir. Eglurodd Mr Nick Selwyn er nad yw'r adroddiad yn cyfeirio at y gronfa Codi'r Gwastad gan nad oedd wedi'i chwblhau'n derfynol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyhoeddi adroddiad ar y Gronfa Codi'r Gwastad yn ddiweddar a fydd yn helpu i ddeall rhai o'r heriau. Bydd cael mynediad at gyllid a'i ddefnyddio'n effeithiol yn cael effaith ar lawr gwlad. Er bod gan awdurdodau lleol hanes o lwyddo i adfywio trefni'n ffisegol drwy waith adeiladu a gwella cyfleusterau, yr her yw bod yn glir ynglŷn â phwrpas trefni yn y dyfodol a beth mae'r Awdurdod eisiau ei gyflawni ar gyfer ei drefi.

  Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynglŷn â phwysigrwydd codi'r gwastad mewn trefi llai sydd wedi dioddef yn economaidd oherwydd y gostyngiad mewn adwerthu a defnyddiwyd Amlwch fel enghraifft, cynghorodd Mr Nick Selwyn er bod yr heriau'n gallu bod yn sylweddol, mae modd llwyddo y tu allan i'r gronfa codi'r gwastad drwy arweinyddiaeth gadarn a gweledigaeth glir gan y Cyngor ar gyfer ei drefi a defnyddio'r pwerau sydd ganddo i gyflawni hynny. Mae'n ymwneud hefyd â chael gweledigaeth a gweithio gyda phartneriaid i wneud y newidiadau hynny.  Fodd bynnag ni fydd pob tref yn ffynnu yn y ffordd yr hoffai'r Cyngor ei weld a  bydd rhaid iddo dderbyn bod gan wahanol drefi rolau a dibenion gwahanol.

  Rhoddodd y Rheolwr Adfywio drosolwg cyflym o weithgareddau adfywio diweddar y Cyngor yn Llangefni, Biwmares, Amlwch a Chaergybi drwy gymorth nawdd gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill. Mae Ynys Môn a siroedd gwledig eraill wedi bod yn lobïo o blaid rhoi cymorth i drefi llai ac o ganlyniad i newid yn y polisi mae cyllid cyfalaf o hyd at  £250k nawr ar gael i drefi llai drwy'r grant Creu Lleoedd.  Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi awgrymu ei bod yn symud i gylch cyllido tair blynedd. Ar sail y DU, mae cyllid cyfalaf at ddibenion isadeiledd ar gael drwy'r Gronfa Codi'r Gwastad ac mae cyllid refeniw ar gael drwy'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'r olaf yn caniatáu i awdurdodau lleol nodi eu blaenoriaethau eu hunain oddi mewn i fframwaith ehangach. Gyda'i gilydd mae'r ffynonellau cyllido hyn yn cynnig cyfleoedd i helpu trefi llai.

  Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am eu cyfraniadau ac i'r aelodau am y drafodaeth.

**Penderfynwyd nodi canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad gan Archwilio Cymru mewn perthynas ag adfywio canol trefi yng Nghymru a derbyn a nodi'r ymateb a gafwyd gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn cynnwys hynt yr hunanasesiad.**

## 8. ARCHWILIO ALLANOL: CRYNODEB ARCHWILIO CYNGOR SIR YNYS MÔN 2021

Cyflwynwyd adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn gan Archwilio Cymru er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ac arolygiaethau eraill ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf (ar gyfer 2020) a gyhoeddwyd yn Chwefror 2021 ac roedd yn rhoi crynodeb o ganlyniad pob darn o waith.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer 2021.**

## 9. ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU DIWEDDARIAD CHWARTEROL CSYM RHAGFYR, 2021

Cyflwynwyd diweddariad ar Raglen Waith Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn fel ac yr oedd ar 31 Rhagfyr, 2021 er gwybodaeth i'r Pwyllgor.  Roedd y diweddariad yn dangos statws pob darn o waith sydd gan Archwilio Cymru ac arolygiaethau eraill ar y gweill ar hyn o



DRAFT

bryd ynghyd â'r dyddiadau cyhoeddi yn ogystal â chadarnhau'r gwaith a gwblhawyd a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2021/22 yn y Cyngor ac yn genedlaethol.

**Penderfynwyd nodi'r diweddariad chwarterol a Raglen ac Amserlen Archwilio Cymru fel ac yr oedd ar 31 Rhagfyr, 2021.**

## 10. ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL 2020/21

Cyflwynwyd Adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Yswiriant Blynyddol ar gyfer 2020/21 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y modd y mae'r Cyngor wedi rheoli ei weithgareddau yswiriant dros y pum mlynedd diwethaf a'r heriau wrth symud ymlaen.

Rhoddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant drosolwg o'r crynodeb o hawliadau a geir yn Atodiad A yn yr adroddiad sy'n rhoi dadansoddiad o bob polisi, yn ôl pob blwyddyn ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd o'r nifer o hawliadau sydd wedi cael eu talu, cael eu setlo heb unrhyw gostau na thaliadau, neu lle nad yw'r hawliad wedi ei setlo hyd yma. Pwysleisiwyd na fydd yr holl hawliadau sydd 'dal yn agored' ac sydd ag arian wrth gefn yn eu herbyn yn cael eu talu neu eu setlo yn unol â'r swm wrth gefn sydd yn er herbyn. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer hawliadau atebolrwydd; bydd hawliadau ag arian wrth gefn mawr yn eu herbyn yn aml yn cael eu setlo am symiau llawer is neu am ddim costau o gwbl. Gall nifer yr hawliadau hefyd gynyddu dros amser, oherwydd mewn rhai achosion, mae hawliadau yn cael eu cyflwyno nifer o flynyddoedd ar ôl y digwyddiad. Ar hyn o bryd mae pedwar hawliad atebolrwydd cyhoeddus, sy'n ymwneud â chyfnodau cyn y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymdrin ag o, yn dal i fod yn agored ac mae'r cyfanswm wrth gefn ar gyfer y pedwar hawliad hwn yn cyfateb i tua £215k.

Mae rhai o'r pwyntiau allweddol y dylid eu nodi yn cynnwys y canlynol –

- Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfuniad o hunain yswiriant ac yswiriant allanol er mwyn diogelu yn erbyn canlyniadau ariannol risg. Mewn rhai achosion mae'r Cyngor wedi trefnu yswiriant allanol ond yn hunain yswirio canran fawr o'r hawliadau sydd wedi eu talu drwy ddewis talu swm cychwynnol mawr (excess).
- Yn 2021/2022 roedd y premiwm yswiriant a dalwyd oddeutu £718.5k (cynnodd o 8% ers 2020/21) gan gynnwys £73k o Dreth Premiwm Yswiriant. Er bod cyfran o hyn yn ymwneud â ffactorau chwyddiant, bu cynnydd yn y gyfradd hefyd yn dilyn colledion gan yswirwyr yn fyd-eang o ganlyniad i hawliadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd (ac felly ni ddylid eu hystyried yn benodol i Ynys Môn
- Mae nifer yr hawliadau am anaf personol a gyflwynir gan weithwyr yn parhau'n isel ar ddwy neu dair y flwyddyn dros y cyfnod o 5 mlynedd.
- Mae nifer yr hawliadau atebolrwydd cyhoeddus wedi parhau i ostwng dros y pum mlynedd diwethaf; tra bo cyfran uchel o'r hawliadau hyn yn gysylltiedig ag anaf i ddefnyddiwr y ffordd neu ddifrod i gerbydau eraill ar y brifffordd yn hanesyddol maent yn parhau'n isel gyda dim ond 10 hawliad o'r fath wedi'u gwneud ers mis Ebrill 2021. Er mai ychydig iawn o hawliadau a wnaed yn erbyn unrhyw wasanaeth arall, mae rhai hawliadau gyda swm wrth gefn uchel. Mae'r rhain yn cynnwys hawliadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, a hawliad sy'n ymwneud â'r adain forwrol, sydd, gyda'i gilydd, â swm wrth gefn gwerth tua £325k.
- Mae nifer yr hawliadau modur wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gellir priodoli hyn i lai o swyddogion yn teithio yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae cost hawliadau modur wedi cynyddu oherwydd bod cost partiau wedi cynyddu, bod cerbydau modern mwy soffistigedig, a chost llogi ceir wedi cynyddu.
- Y tywydd yw'r prif reswm dros hawliadau am ddifrod i eiddo. Fe achosodd storm Ophelia, ac yn fwy diweddar storm Arwen, ddifrod i adeiladau'r Cyngor.

DRAFT

- Yn gyffredinol, y duedd yw bod nifer yr hawliadau'n isel; fodd bynnag, mae hawliadau'n mynd yn ddrutach.

Cynghorodd y Rheolwr Yswiriant a Risg wrth edrych ymlaen er bod y pandemig wedi cael effaith gadarnhaol ar niferoedd hawliadau gallai ffyrdd newydd o weithio a threfniadau gweithio gartref achosi math newydd o hawliadau nad ydym wedi'u gweld o'r blaen. Mae gweithgareddau twyllodrus wedi cynyddu yn ystod y pandemig ac mae'n bosib y bydd hawliadau ffug neu sydd wedi eu gorliwio yn dal i gael eu cyflwyno yn dilyn y pandemig. Mae digwyddiadau yn gysylltiedig â'r hinsawdd yn cynyddu ac maent yn cael effaith ddifrifol ar unigolion a chymunedau ac ar yswirwyr o ran costau setlo'r hawliadau. Yn gyffredinol, mae cost hawliadau'n cynyddu ac yn achos hawliadau nad ydynt yn ymwneud ag anafiadau mae hynny oherwydd bod cost partiau a deunyddiau yn cynyddu ac yn achos hawliadau am anafiadau mae hynny oherwydd cynnydd mewn costau gofal wrth i bobl fyw'n hirach a'r triniaethau wella. Bydd yr holl ffactorau hyn yn effeithio ar faint mae yswirwyr yn talu wrth setlo hawliadau a gyflwynir iddynt ac mae'n siŵr y bydd hyn yn arwain at yswirwyr yn codi premiymau uwch ac felly mae'n bwysig bod y Cyngor yn parhau i roi mesurau ar waith i reoli a lleihau'r risgiau. Gall rheoli risgiau'n dda hefyd ganiatáu i'r Cyngor dderbyn mwy o risg drwy gynyddu gormodedd a didynnu, gan gadw cydbwysedd rhwng y risgiau rydym yn eu hyswirio a chost y premiwm.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor ynglŷn ag adolygu lefelau gormodedd cynghorodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant bod gan y Cyngor gytundeb tymor hir gyda'i yswiriwr presennol a bod y broses adnewyddu flynyddol yn cynnwys gwirio a yw'r symiau gormodedd yn briodol wrth symud ymlaen. Os credir bod angen newid y symiau yna mae modd gofyn am ddyfynbris arall neu efallai y bydd yr yswiriwr yn amrywio'r telerau yn cynnwys lefelau gormodedd a/neu gapio. Cafodd y contract ei ail dendro 5 mlynedd yn ôl yn seiliedig ar broses dendro gystadleuol yn unol â'r fframwaith caffael cenedlaethol.

**Penderfynwyd derbyn a nodi cynnwys yr Adroddiad Yswiriant ar gyfer 2020/21.**

**11. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg i'w ystyried gan y Pwyllgor a oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith yr adain Archwilio Mewnol ers y diweddariad diwethaf ar 1 Rhagfyr, 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi'r archwiliadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, llwyth gwaith presennol yr adain Archwilio Mewnol a'i blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio a risg ddau adroddiad archwilio yn ystod y cyfnod dan sylw - rhoddwyd Sicrwydd Rhesymol i un - Llywodraethu Gwybodaeth - a chodwyd 2 risg/mater sylweddol a 5 risg/mater cymedrol ac mae'r manylion ar gael ym mharagraffau 3 i 11 yn yr adroddiad, a rhoddwyd Sicrwydd Cyfyngedig i'r llall - Rheoli Trwyddedau Meddalwedd - sy'n un o dri darn o waith y mae tîm Archwilio TG Cyngor Dinas Salford yn ei gwblhau ar ein rhan a chodwyd un mater/risg sylweddol a 9 mater/risg cymedrol. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 12 i 16 yn yr adroddiad. Mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion/risgiau a nodwyd wedi cael ei gytuno ac mae wedi cael ei rannu ag aelodau'r Pwyllgor; mae bwriad y Cyngor i symud i gymwysiadau "Cwmwl" ar gyfer rhai o'i raglenni busnes gritiol yn rhoi sicrwydd y gellir lliniaru rhai o'r risgiau a nodwyd.

Mae'r chwe archwiliad a nodwyd yn y tabl ym mharagraff 17 yn mynd rhagddynt ynghyd â'r gwaith o ymchwilio i'r garfan gyntaf o ganlyniadau paru'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2020/21 a gafodd eu rhyddhau ym mis Ionawr, 2021. Ar 1 Chwefror, 2022 roedd 18 o gamau gweithredu heb eu cwblhau (8 sylweddol a 10 cymedrol) ac roedd pob un yn dod o dan y Gwasanaethau Adnoddau ac yn ymwneud â materion/risgiau a godwyd yn ystod y pedwar archwiliad a restrwyd ym mharagraff 27 yn yr adroddiad. Mae'r adain archwilio



DRAFT

Mewnol yn gweithio gyda'r gwasanaeth i'w cynorthwyo i gwblhau'r camau. Mae blaenoriaethau tymor canolig yr adain Archwilio Mewnol wedi'u nodi ym mharagraffau 30 i 32 yn yr adroddiad ac maent yn canolbwyntio ar adolygu'r risgiau coch ac ambr gweddilliol ar y Gofrestr Risgiau Strategol, fel y mae'n cael ei galw erbyn hyn, nad ydym wedi eu hadolygu eto neu sydd heb gael eu hadolygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2022/23 hefyd wrthi'n cael ei datblygu. Yn y tymor hwy bydd yr adain Archwilio Mewnol yn ymdrechu i ddiwallu'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2021-24, gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Perfformiad i wella'r gwaith mapio sicrwydd ledled y Cyngor a chyfrannu at ddatblygu Adolygiad Perfformiad, a pharatoi ar gyfer yr Asesiad Ansawdd Allanol ym mis Mehefin, 2022. Hefyd, yn dilyn cyhoeddi adroddiad terfynol ar Reoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion, mae'r adain Archwilio Mewnol wedi bod yn gweithio i ddiweddaru'r ddogfen ganllaw, darparu hyfforddiant i benaethiaid a llywodraethwyr a chynnal gwiriadau sicrhau ansawdd o'r tystysgrifau a gyflwynwyd gan ysgolion.

Roedd ymateb y swyddogion i gwestiynau'r Pwyllgor fel a ganlyn –

- Mewn perthynas â'r sicrwydd cyfyngedig a roddwyd yn dilyn yr adolygiad o Drwyddedau Meddalwedd, cynghorodd y Rheolwr Tîm TG bod cost yr holl drwyddedau meddalwedd i'r Cyngor yn 2021 o gwmpas £580k a bod hynny'n cynnwys yr holl drwyddedau unigol, trwyddedau meddalwedd a chost eu cynnal a'u cadw. O ran lleihau'r gost, cadarnhaodd y Rheolwr Tîm TG tra bod rhai o'r camau gweithredu yn yr adroddiad yn cyfeirio at yr angen i reoli'r risg bod meddalwedd heb ei drwyddedu neu anawdurdodedig yn cael ei ddefnyddio, mae'r camau eraill yn ymwneud â lleihau costau a sicrhau gwerth gorau am arian. Mae'r dulliau rheoli a awgrymwyd yn cynnwys cofrestru asedau meddalwedd i sicrhau ffordd integredig o ganfod ble mae'r asedau unigol hynny'n cael eu cadw. Yn ogystal â bod yn ffordd o gadw llygaid ar bwy sydd gan beth, byddai cofrestr gynhwysfawr hefyd yn helpu i ganfod a ydym yn dal trwyddedau meddalwedd dianghenraid, a thrwy hynny osgoi dyblygu a/neu ail-brynu trwyddedau.
- Er bod yr Uned TG yn monitro prif drwyddedau meddalwedd y Cyngor, dywedodd y Rheolwr Tîm TG y gall y risg bod meddalwedd diawdurdod yn cael ei ddefnyddio godi mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd parti/cwmnïau lle nad yw eu trefniadau trwyddedu'n hysbys, neu os caiff meddalwedd ei brynu drwy sianeli sydd ddim yn rhan o brosesau safonol yr adain TG i gadarnhau a oes trwydded eisoes yn bodoli'n ar gyfer y feddalwedd. Er bod yr adolygiad archwilio'n nodi bod dulliau rheoli eisoes ar waith i gyfyngu digwyddiadau o'r fath, argymhellir rhoi dulliau rheoli ychwanegol ar waith i atgyfnerthu'r broses bresennol a rhoi sicrwydd pellach.
- Mewn perthynas â chamau heb eu cwblhau ar amser, eglurwyd bod absenoldebau o ganlyniad i Covid wedi cyfrannu at yr oedi wrth gwblhau'r camau gweithredu yn achos pob un o'r archwiliadau yn ymwneud â'r swyddogaeth Adnoddau. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod materion capasiti wedi effeithio ar allu'r adain i weithredu'r camau a argymhellwyd yn y pedwar archwiliad ar amser gan fod cyfrifoldebau dydd i ddydd yn mynd ag amser rheolwyr y timau incwm a dyledwyr ac felly nid oes llawer o amser, os o gwbl, i fynd i'r afael ag effeithiolrwydd prosesau busnes. Comisiynwyd adnodd allanol i adolygu prosesau ac ymateb i argymhellion yr archwiliad, ac fel rhan o'r broses o gymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2022/23 mae'r swyddogaeth Adnoddau wedi gwneud cais am gyllid i ariannu swydd Rheolwr Busnes i adolygu systemau, prosesau ac ymarfer ledled y swyddogaeth ac i weithredu unrhyw welliannau a nodwyd.

**Penderfynwyd nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau'r adain Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

DRAFT

## 12. BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor a oedd yn cynnwys y Blaen Raglen Waith sydd wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau o ganlyniad i lwyth gwaith a/neu ffactorau eraill.

**Penderfynwyd nodi'r mân newidiadau i'r Blaen Raglen Waith diwygiedig ar gyfer 2021-22.**

## 13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd.**

## 14. DIWEDDARIAD RHEOLI RISG

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg i'w ystyried gan y Pwyllgor a oedd yn eu diweddaru ynglŷn â'r sefyllfa o ran rheoli risg. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r datblygiadau rheoli risg ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf ar y gofrestr risgiau corfforaethol i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, 2020 ac roedd yn cynnwys y gofrestr risgiau strategol newydd yn Atodiad C.

Adroddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi adolygu'r gofrestr yn ei chyfanrwydd ers i'r gofrestr risg gorfforaethol gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor diwethaf a bod yr UDA wedi penderfynu canolbwyntio ar y risgiau hynny a fyddai'n arwain at gyflawni blaenoriaethau strategol, ac felly mae cofrestr risgiau strategol newydd, sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol, wedi cael ei datblygu yn lle'r gofrestr risgiau corfforaethol. Mae'r matrics asesu risg (ynghlwm yn atodiad B) hefyd wedi cael ei adolygu ac mae'r disgrifyddion "tebygolrwydd" wedi cael eu diwygio yn ogystal â rhai o'r disgrifyddion "effaith". Mae'r gofrestr risgiau strategol newydd yn cynnwys 14 risg sef hanner y risgiau ar y gofrestr risgiau corfforaethol ac mae pob risg yn cael ei harwain gan aelod penodol o'r UDA. Cynhaliwyd adolygiad manwl o eiriad, sgoriau/blaenoriaethau, mesurau rheoli a chamau gweithredu pellach gyda pherchennog pob risg newydd er mwyn eu lliniaru; yna fe wnaeth yr UDA adolygu'r gofrestr risgiau strategol yn ei chyfanrwydd.

Bydd yr UDA yn parhau i adolygu nifer fach o risgiau strategol yn fisol a bydd yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol yn ei chyfanrwydd pob dwy flynedd. Mae'r risgiau hynny sydd yn gyffredin mewn sawl maes gwasanaeth (e.e. mewn perthynas â chydweithio a gweithio mewn partneriaeth, contractau iechyd a diogelwch, absenoldebau salwch a thwyll) wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr ac os nad ydi hynny wedi digwydd yn barod byddant yn cael eu cynnwys at gofrestr risgiau gwasanaethau unigol. Mae'r UDA yn cydnabod fodd bynnag y gall y risgiau hyn gyda'i gilydd cael effaith sylweddol ar y Cyngor cyfan ac felly bydd yn monitro'r risgiau hyn fel rhan o'i drefniadau monitro perfformiad arferol.

Mae'r UDA wedi nodi pum risg gweddilliol coch/critigol i gyflawni amcanion corfforaethol a strategol y Cyngor ac mae'r rhain yn ymwneud â rheoli'r gweithlu, parhad TG, diogelwch seiber, moderneiddio ysgolion ac addasrwydd parhaus asedau ffisegol.
Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r gofrestr risgiau strategol sydd yn symlach ac yn fwy trefnus na'r gofrestr risgiau corfforaethol flaenorol ac yn haws i'w deall o ran y risgiau mwyaf sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Trafodwyd effeithiolrwydd y mesurau rheoli o ran lleihau'r tebygolrwydd ac effaith yn ogystal â digonolrwydd y mesurau rheoli mewn perthynas â moderneiddio ysgolion gan nodi nad oes ffordd benodol o fesur y cyflenwad a'r galw mewn perthynas â lleoedd ysgolion. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y mesurau rheoli a amlinellwyd ar

gyfer moderneiddio ysgolion yn ddigonol i gwrdd â'r risg a nodwyd ar yr adeg hon yn ôl perchennog y risg.

**Penderfynwyd nodi'r trefniadau a wnaed mewn perthynas â rheoli risg ac yn benodol y gofrestr risgiau strategol ac i gadarnhau y gall y Pwyllgor fod yn sicr yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod a'i fod yn rheoli'r risgiau i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.**

## 15. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd.**

## 16. ADRODDIAD DIOGELWCH SEIBER BLYNYDDOL 2021

Cyflwynwyd yr Adroddiad Diogelwch Seiber Blynyddol ar gyfer 2021 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r bygythiadau seiber cyffredin sy'n wynebu'r Cyngor ac yn amlinellu'r mesurau lliniarol a gweithredol sydd ar waith i ganfod ac atal gweithgareddau maleisus.

Rhoddodd y Swyddog Diogelwch Seiber TGCh drosolwg o brif negeseuon yr adroddiad yn cynnwys yr heriau diogelwch seiber sylweddol a wynebwyd gan y Cyngor yn 2021 a'r modd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain a/neu'r modd y cawsant eu datrys. Cynghorwyd y Pwyllgor bod gan y Cyngor bob math o dechnolegau i helpu i ganfod a/neu atal ymosodiadau seiber ar y rhwydwaith a bod yr holl fesurau sydd yn eu lle yno i gryfhau diogelwch seiber y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn mae'r Gwasanaeth TG wedi penodi dau aelod newydd o staff sy'n gweithio'n benodol i ganfod, adfer ac atal gwendidau o fewn rhwydwaith y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn y broses o gaffael technolegau ychwanegol i helpu i ganfod gwendidau neu ddigwyddiadau tresmasu yn gynnar a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r technolegau sydd eisoes ar waith. Hefyd, mae polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu diweddaru yn ystod 2021 er mwyn helpu i atgyfnerthu'r broses ymchwiliol wrth ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi rhywfaint o heriau wrth symud ymlaen o ran delio â chynnydd yn y math yma o fygythiadau a bygythiadau seiber mwy soffistigedig a'r angen i fynd ati'n barhaus i adolygu a diweddaru dulliau a'r adnoddau sydd eu hangen.

**Penderfynwyd derbyn a nodi cynnwys yr Adroddiad Diogelwch Seiber Blynyddol ar gyfer 2021.**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**
**(Cadeirydd)**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:**<br>**Report to:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:**<br>**Date:** | 19 Ebrill 2022 |
| **Pwnc:**<br>**Subject:** | Hunanasesiad o Arfer Da y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:**<br>**Head of Service:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd / Nature and Reason for Reporting:**<br>Un unol â gofynion CIPFA, i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol dylai'r pwyllgor adrodd yn rheolaidd ar ei waith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant, ac adrodd ar asesiad o'i berfformiad. Mae'r hunanasesiad hwn yn cyfrannu at y gofyniad hwnnw. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn 2018, cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) Ddatganiad Safbwynt a Chanllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu.

1.2 Mae'n nodi safbwynt CIPFA ar swyddogaeth a gweithrediad pwyllgorau archwilio mewn awdurdodau lleol a chyrff yr heddlu, a hwn yw'r arfer orau ar gyfer pwyllgorau archwilio mewn awdurdodau lleol ledled y DU ac ar gyfer pwyllgorau archwilio'r heddlu yng Nghymru a Lloegr.

1.3 Mae'n argymell y dylai'r pwyllgor, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, adrodd yn rheolaidd ar ei waith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant, ac adrodd ar asesiad o'i berfformiad. Dylai adroddiad cyhoeddus blynyddol ddangos sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

1.4 Mae Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n bodloni'r gofyn hwn. Caiff ei ysgrifennu ar ddiwedd y cylch blynyddol ac mae'n cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

1.5 Mae canllawiau CIPFA hefyd yn cynnwys rhestr wirio hunanasesu sydd yn darparu adolygiad lefel uchel sy'n ymgorffori'r prif egwyddorion a nodir yn Natganiad Safbwynt CIPFA a'r canllawiau ategol. Gall cwblhau'r hunanasesiad lywio'r adroddiad blynyddol.

1.6 Gellir defnyddio'r hunanasesiad hefyd i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglen waith a chynlluniau hyfforddi'r pwyllgor archwilio.


1.7 Ar 16 Mawrth 2020, wythnos cyn y cyfnod clo, cynhaliwyd hunanasesiad gan banel a oedd yn cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelod lleyg y Pwyllgor, ynghyd â'r Pennaeth Archwilio a Risg a'r Prif Archwilydd. Oherwydd i'r 'Strategaeth ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor' gael ei roi ar waith yn ystod yr argyfwng, ni rannwyd yr hunanasesiad gyda'r Pwyllgor bryd hynny.

1.8 Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi adolygu a diweddaru'r hunanasesiad i sicrhau ei fod yn gywir o hyd, ac mae'r canlyniad yn dilyn.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- nodi'r hunanasesiad wedi'i adolygu a'i ddiweddaru; a
- cymeradwyo'r gwelliannau a awgrymir.




# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO – HUNANASESIAD O ARFER DA

## EBRILL 2022

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD 3
CANFYDDIADAU'R HUNANASESIAD O ARFER DA 4
Pwrpas a llywodraethiant pwyllgor Archwilio 4
Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio 4
Aelodaeth a chefnogaeth 5
Effeithiolrwydd y Pwyllgor 6
CASGLIAD A MEYSYDD GWELLA A NODWYD 7

# CYFLWYNIAD

1. Cynhaliwyd yr hunanasesiad hwn o arfer da ym mis Mawrth 2020 gan banel a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, aelod lleyg, y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Prif Archwilydd, ac fe'i diweddarwyd ym mis Mawrth 2022 gan y Pennaeth Archwilio a Risg.

2. Mae'n darparu adolygiad lefel uchel sy'n ymgorffori'r prif egwyddorion a nodir yn Natganiad Safbwynt y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a'r canllawiau ategol.

3. Os yw pwyllgor archwilio yn perfformio ar lefel uchel yn erbyn yr egwyddorion arfer da, yna mae'n arwydd fod sylfaen gadarn i'r pwyllgor a bod ganddo aelodau gwybodus. Mae'r ffactorau hyn yn hanfodol er mwyn datblygu pwyllgor archwilio effeithiol.

4. Defnyddiwyd canlyniad yr hunanasesiad hefyd i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglen waith a chynlluniau hyfforddi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

5. Bydd hefyd yn llywio Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# CANFYDDIADAU'R HUNANASESIAD O ARFER DA

## Pwrpas a llywodraethiant pwyllgor Archwilio

6. Mae gan y Cyngor bwyllgor archwilio penodedig. Mae'r cylch gorchwyl yn nodi'n glir beth yw pwrpas y pwyllgor, yn unol â Datganiad Safbwynt CIPFA, ac mae'n cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor, gan ddangos bod dealltwriaeth o rôl a phwrpas y pwyllgor archwilio ar draws yr awdurdod, a'u bod yn cael eu derbyn.

7. Mae'r Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r awdurdod wrth gyflawni gofynion llywodraethiant da, yn unol â dogfen fframwaith CIPFA, *'Delivering Good Governance in Local Government: Framework'* (CIPFA/Solace, 2016)[1].

8. Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor llawn trwy gyfrwng Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd, sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn derbyn ei sylwadau a'i gymeradwyaeth ac yna i'r Cyngor llawn ym mis Medi bob blwyddyn. Mae'r trefniadau hyn i ddal y pwyllgor i gyfrif am ei berfformiad yn gweithredu'n foddhaol, ond byddai modd eu gwella trwy gynnal asesiad ehangach o'i berfformiad, a thrwy ofyn i aelodau unigol asesu perfformiad y Pwyllgor a'u perfformiad eu hunain.

**Maes Gwella 1:**

**Cynhelir hunanasesiad ansoddol yn ystod 2022-23 i dderbyn adborth ar berfformiad y Pwyllgor gan y rhai hynny sy'n ymwneud â'r Pwyllgor neu'n sy'n dibynnu ar ei waith, yn cynnwys uwch reolwyr ac aelodau'r Pwyllgor, er mwyn arfarnu a yw'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad a sut mae'n gwneud hynny.**

## Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio

9. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn rhoi sylw penodol i'r holl feysydd craidd a nodir yn Natganiad Safbwynt CIPFA. Cynhelir arfarniad blynyddol, ar ffurf Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd, i asesu a yw'r Pwyllgor yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac y rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r holl feysydd craidd. Fel yr uchod, gellid gwella hyn trwy gynnal asesiad ehangach o'i berfformiad.

10. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y meysydd ehangach a nodir yn Natganiad Safbwynt CIPFA a p'un a fyddai'n briodol i'r Pwyllgor ymgymryd â nhw. Maent wedi eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor ac maent yn cynnwys meysydd megis rheoli trysorlys.

[1] https://www.cipfa.org/policy-and-guidance/publications/d/delivering-good-governance-in-local-government-framework-2016-edition

11. Mae'r pwyllgor wedi cynnal ei rôl ymgynghorol trwy beidio â derbyn unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau nad ydynt yn cyd-fynd â'i bwrpas craidd.

## Aelodaeth a chefnogaeth

12. Mae gan y Pwyllgor strwythur a chyfansoddiad effeithiol, sy'n cynnwys wyth aelod etholedig ac un aelod lleyg, gan olygu nad yw ei faint yn anodd ei drafod. Mae'n gorff anweithredol a sefydlwyd o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011[2] ac mae'n bwyllgor o'r Cyngor a gyfansoddwyd yn llawn sy'n gweithredu ar lefel strategol. Mae'r Pwyllgor yn ymdrin â'i fusnes mewn modd anwleidyddol ac mae'n glynu at y rheolau ynghylch cydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989[3].

13. Er ei bod yn ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosib, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor, nid yw'n aelod o'r Pwyllgor, gan y gallai hynny atal y Pwyllgor rhag herio'r Pwyllgor Gwaith a'i ddal i gyfrif mewn perthynas â materion llywodraethiant, risg a rheolaeth.

14. Yn fwy diweddar, yn unol â gofynion cyfansoddiad newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, o fis Mai 2022 bydd traean o aelodau'r Pwyllgor yn aelodau lleyg a dau draean yn aelodau o'r Cyngor. Recriwtiwyd aelodau lleyg mewn ffordd agored a thryloyw a bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo eu dethol a'u penodi ar 25 Ebrill 2022.

15. Mae'r aelodau lleyg a benodir i'r pwyllgor yn sicrhau bod cymysgedd briodol o wybodaeth a sgiliau ymysg yr aelodau. Fodd bynnag, nid yw aelodaeth y Pwyllgor wedi cael ei asesu'n ffurfiol yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd.

**Maes Gwella 2:**

**Cynhelir hunanasesiad ansoddol yn ystod 2022-23 gydag aelodau unigol y Pwyllgor iddynt asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain a nodi a oes anghenion datblygu a hyfforddi mewn unrhyw faes.**

16. Mae trefniadau ar waith i gefnogi'r Pwyllgor trwy sesiynau briffio a hyfforddiant fel rhan o raglen gynefino gyffredinol y Cyngor, ac mae perthynas weithio dda yn bodoli gyda phobl a sefydliadau allweddol, yn cynnwys archwilio allanol, archwilio mewnol a'r Swyddog Adran 151.

17. Mae gan y Pwyllgor gymorth ysgrifenyddol benodedig. Fodd bynnag, yn wahanol i bwyllgorau sgriwtini'r Cyngor, nid yw'n elwa o gael swyddog Gwasanaethau Democrataidd penodedig wedi'i neilltuo iddo a dylid edrych ar hyn.

[2] https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents
[3] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/42/contents

**Maes Gwella 3:**

**Dylai'r Cyngor ystyried a fyddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n elwa o gael swyddog Gwasanaethau Democrataidd penodedig wedi'i neilltuo iddo.**

## Effeithiolrwydd y Pwyllgor

18. Nid yw'r Pwyllgor wedi derbyn adborth ar ei berfformiad gan y rhai hynny sy'n ymwneud â'r Pwyllgor neu sy'n dibynnu ar ei waith, ac nid yw wedi arfarnu p'un a yw'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad, a sut y mae'n gwneud hynny. Byddai modd gwella'r maes hwn. (Gweler Maes Gwella 1)

19. Mae cyfarfodydd yn cynnwys trafodaeth ac ymgysylltiad da gan yr holl aelodau, yn ogystal ag ystod eang o arweinwyr a rheolwyr, ynghyd â thrafodaethau ar ganfyddiadau archwilio, risgiau a chynlluniau gweithredu gyda'r swyddogion cyfrifol.

20. Mae'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella llywodraethiant, risg a rheolaeth, ac mae'r tîm Archwilio Mewnol yn eu monitro ar ei ran.

21. Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i roi cyfrif am ei berfformiad ac esbonio ei waith. (Gweler Pwrpas a llywodraethiant pwyllgor Archwilio)

# CASGLIAD A MEYSYDD GWELLA A NODWYD

22. Mae defnyddio'r ymarfer a argymhellir yng nghyhoeddiad CIPFA wedi galluogi'r Pwyllgor i gadarnhau **ei fod yn darparu perfformiad o safon dda**.

23. Fodd bynnag, nid yw cyflawni'r arfer a argymhellir o reidrwydd yn golygu bod y Pwyllgor yn effeithiol. Mae dewis aelodau'r pwyllgor archwilio, eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad yn elfen hanfodol o bwyllgor effeithiol, a'r gwerth y mae'n ei ychwanegu i'r sefydliad. Felly, cynhelir arfarniadau pellach ac eang yn ystod 2022-23, fel y nodir isod:

Maes Gwella 1:

**Cynhelir hunanasesiad ansoddol yn ystod 2022-23 i dderbyn adborth ar berfformiad y Pwyllgor gan y rhai hynny sy'n ymwneud â'r Pwyllgor neu'n sy'n dibynnu ar ei waith, yn cynnwys uwch reolwyr ac aelodau'r Pwyllgor, er mwyn arfarnu a yw'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad a sut mae'n gwneud hynny.**

Maes Gwella 2:

**Cynhelir hunanasesiad ansoddol yn ystod 2022-23 gydag aelodau unigol y Pwyllgor iddynt asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain a nodi a oes anghenion datblygu a hyfforddi mewn unrhyw faes.**

Maes Gwella 3:

**Dylai'r Cyngor ystyried a fyddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n elwa o gael swyddog Gwasanaethau Democrataidd penodedig wedi'i neilltuo iddo.**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:**<br>**Report to:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:**<br>**Date:** | 19 Ebrill 2022 |
| **Pwnc:**<br>**Subject:** | Cylch Gorchwyl Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:**<br>**Head of Service:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd / Nature and Reason for Reporting:**<br>Rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud sylwadau ar y newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cyflwyno newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sydd wedi eu cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

1.2 Mae'r Cyfansoddiad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae pwerau i newid y cyfansoddiad wedi'u neilltuo i'r Cyngor llawn ac felly mae'r cylch gorchwyl yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ei gymeradwyo ar 25 Ebrill 2022, yn dilyn cais gan y Pwyllgor Gwaith i argymell y newidiadau hyn i'r Cyngor.

1.3 Mae'r Cylch Gorchwyl drafft ynghlwm yn Atodiad 1, ac mae'r newidiadau'n cael eu dangos. Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

- cyfansoddiad a threfniadau'r Pwyllgor (adran 3.4.8.2.2 a 3)
- cynnwys adolygiad o adroddiad hunanasesu blynyddol (adran 3.4.8.4.15)
- cynnwys adolygiad o asesiad Panel Perfformiad (adran 3.4.8.4.16)
- cynnwys darpariaeth i'r Pwyllgor dderbyn ac adolygu adroddiad Arolygiad Arbennig yr Archwilydd Cyffredinol, pe byddai un yn cael ei wneud (3.4.8.17)

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu'r newidiadau i'w Gylch Gorchwyl ac yn cyflwyno sylwadau arnynt, cyn iddynt gael eu cyflwyno er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.

# Atodiad 1

## 3.4.8 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl

### 3.4.8.1 Datganiad o bwrpas

3.4.8.1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.

3.4.8.1.2 Pwrpas y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, ~~perfformiad panelau,~~ a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethiant. Mae'n goruchwylio archwiliad mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle. Mae hefyd yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

3.4.8.1.3 Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phwyllgorau sgriwtini. Fel rhan o rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae’n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau.

3.4.8.1.4 Mae hefyd yn derbyn sylwadau ar adroddiad hunanasesu blynyddol y cyngor ac adroddiad y panel asesu perfformiad.

### 3.4.8.2 Cyfansoddiad a threfniadau

3.4.8.2.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

3.4.8.2.2 Bydd y pwyllgor yn cynnwys traean o aelodau lleyg; wyth aelod etholedig a~~c~~ ~~un~~ pedwar aelodau lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i’r graddau y mae hynny’n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd yn aelod lleyg ac ni fydd yr ~~a’r is-~~Is-~~-~~G~~g~~adeirydd yn aelod o’r pwyllgor gwaith na’n gynorthwyydd i’r pwyllgor gwaith ~~yn argymell penodi'r un aelod lleyg i'r pwyllgor archwilio~~. Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor. Mae'r holl aelodau, gan gynnwys yr aelodau lleyg, yn ddarostyngedig i Gôd Ymddygiad y Cyngor a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â’r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.2.3 ~~Gall~~Rhaid i g~~c~~adeirydd y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn~~-gynghorydd neu'n~~ aelod lleyg.~~, ond ni chaiff fod yn aelod o grŵp sy'n ffurfio rhan o bwyllgor gwaith y cyngor, ac eithrio pan fo pob grŵp yn cael ei gynrychioli ar y pwyllgor gwaith (ac yn yr achos hwnnw, ni ddylai'r cadeirydd fod yn aelod o'r pwyllgor gwaith).~~ Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar G~~g~~adeirydd ac I~~i~~s-gadeirydd y pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys yr aelodau lleyg, bleidlais.

3.4.8.2.4 Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud hynny. Rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt, ac eithrio rhai y gallent wrthod eu hateb os oeddent yn y llys. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.

3.4.8.2.5. Bydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgresiwn y Cadeirydd os rhoddir y nifer o ddyddiau angenrheidiol a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.

3.4.8.2.6 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwystr i'r pwyllgor.

3.4.8.2.7 Gall y pwyllgor gomisiynu gwaith gan yr archwilwyr allanol a mewnol a bydd y ddau yn cynghori'r Pwyllgor. Yn ogystal, gall y Pwyllgor geisio cyngor annibynnol o'r tu allan i'r Cyngor, o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

3.4.8.2.8 Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.

3.4.8.2.9 Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

**3.4.8.3 Trefniadau atebolrwydd**

3.4.8.3.1 Bydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol, ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

3.4.8.3.2 Bydd y pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio rhaglen waith y pwyllgor archwilio a chynlluniau hyfforddi a bydd yn llywio adroddiad blynyddol y pwyllgor.

3.4.8.3.3 Mae'r pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy’n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon.

**3.4.8.4 Llywodraethu**

3.4.8.4.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethiant da~~1~~, gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y cod llywodraethu lleol.

3.4.8.4.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn ac yn ystyried a yw'n briodol adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol, gan ystyried barn y gwasanaeth archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor.

3.4.8.4.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu ymateb drafft y cyngor a’r pwyllgor gwaith i asesiad o berfformiad gan banel ac, os yw’n briodol, bydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i’r ymateb drafft. Amlinellir y drefn ar gyfer yr adolygiad hwn ym mharagraff 3.4.8.4.16.

3.4.8.4.4 Bydd y pwyllgor yn adolygu adroddiad hunanasesu blynyddol y cyngor ac, os yw’n briodol, bydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i’r adroddiad. Amlinellir y drefn ar gyfer yr adolygiad hwn ym mharagraff 3.4.8.4.15.

3.4.8.4.5~~3~~ Bydd y pwyllgor yn helpu'r cyngor i weithredu gwerthoedd llywodraethu moesegol. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd ac adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a chydymffurfiad cyfreithiol ar bob lefel.

3.4.8.4.6~~4~~ Bydd y pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio o bwys.

**3.4.8.5 Rheoli Trysorlys**

3.4.8.5.1 Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.2 Bydd y pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.

3.4.8.5.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.4 Bydd y pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu’r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

**3.4.8.6 Gwerth am arian**

3.4.8.6.1 Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

3.4.8.6.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu ymagwedd gyffredinol y cyngor tuag at werth am arian ac yn asesu a yw'n cyd-fynd ag amcanion llywodraethu a'r sicrwydd ynghylch hyn i ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.6.3 Bydd y pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn, yn enwedig adroddiadau gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.4.8.7 Fframwaith sicrwydd**

3.4.8.7.1 Bydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor yn ddigonol. Bydd hyn yn gymorth i gefnogi’r pwyllgor wrth iddo gymeradwyo’r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg trwy nodi i ba raddau y bydd yn dibynnu ar archwiliad mewnol am ei ofynion sicrwydd.

3.4.8.7.2 Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu’n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu.

**3.4.8.8 Rheoli risg**

3.4.8.8.1 Bydd sicrwydd dros reoli risg yn elfen allweddol sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. I'r perwyl hwn, bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu datblygiad a gweithrediad rheolaeth risg effeithiol yn y cyngor. Yn benodol, bydd yn:

- Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu'n ymarferol
- Goruchwylio’r modd y caiff rheoli risg ei integreiddio i brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad
- Adolygu'r trefniadau i gydlynu a rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd
- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr

- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth
- Adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisio sicrwydd bod y rheolwyr yn cymryd perchenogaeth briodol ac yn rheoli risgiau yn effeithiol
- Mofyn sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio i'r broses rheoli risg
- Cefnogi datblygiad ac ymgorffori arferion da yn y maes rheoli risg.

**3.4.8.9 Mynd i'r afael â thwyll a llygredd**

3.4.8.9.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y cyngor, gan gynnwys y polisi.

3.4.8.9.2 Bydd y pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau atal twyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r arferion, y safonau llywodraethu a'r ddeddfwriaeth a argymhellir.

3.4.8.9.3. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.

3.4.8.9.4 Bydd yn goruchwylio unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

**3.4.8.10 Archwiliad mewnol**

3.4.8.10.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor.

3.4.8.10.2 Rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas ag archwilio mewnol fydd:
- goruchwylio ei annibyniaeth, ei wrthrychedd, ei berfformiad a'i broffesiynoldeb
- cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio fewnol
- hyrwyddo defnydd effeithiol o archwiliad mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

3.4.8.10.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.

3.4.8.10.4 Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.5 Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r

strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

3.4.8.10.6 Bydd y pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

3.4.8.10.7 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.8 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.9 Bydd y pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau’r archwilwyr mewnol.

3.4.8.10.10 Bydd y pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.11 Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae’r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.12 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a’r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.13 Bydd y pwyllgor yn ystyried, yn cymeradwyo ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw ddulliau diogelu sydd wedi cael eu sefydlu i gyfyngu ar rwystrau i annibyniaeth a gwrthrychedd sydd gan y pennaeth archwilio mewnol yn deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol sydd y tu allan i’r maes archwilio mewnol.

3.4.8.10.14. Bydd y pwyllgor yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwiliad mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn goruchwylio cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.

3.4.8.10.15 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwiliad mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

3.4.8.10.16 Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygiad dulliau cyfathrebu effeithiol â'r pennaeth archwilio mewnol. Mae'r ymgysylltiad rhwng y pennaeth archwilio mewnol a'r pwyllgor archwilio yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol.

3.4.8.10.17 Bydd y pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor.

**3.4.8.11 Archwiliad allanol**

3.4.8.11.1 Bydd y pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwiliad allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.

3.4.8.11.2 Bydd y pwyllgor yn ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*. Bydd yn cyfrannu at ymateb y cyngor i'r llythyr archwilio blynyddol.

3.4.8.11.3 Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

3.4.8.11.4 Bydd y pwyllgor yn cynghori ac yn argymell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwiliadau allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.

3.4.8.11.5 Bydd cyfle i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gwrdd yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol, yn annibynnol o'r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

**3.4.8.12 Adrodd ariannol**

3.4.8.12.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

3.4.8.12.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn, ddatganiadau ariannol blynyddol yr awdurdod, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.

3.4.8.12.3 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ac a oes angen eu dwyn i sylw'r cyngor ai peidio.

**3.4.8.13 Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill**

3.4.8.13.1 Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgriwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

**3.4.8.14 Delio â Chwynion**

3.4.8.14.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

3.4.8.14.2 Bydd y pwyllgor yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

**3.4.8.15 ~~Panel Perfformiad~~Adroddiad Hunanasesu**

3.4.8.15.1 Bob blwyddyn ariannol, bydd y pwyllgor yn derbyn drafft o adroddiad hunanasesu’r cyngor [i'w ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu'r prif gynghorau)]

3.4.8.15.2 Bydd y pwyllgor yn derbyn yr adroddiad drafft gan y cyngor cyn pen pedair wythnos i'r cyngor wneud yr adroddiad.

3.4.8.15.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r adroddiad drafft a chaiff argymell newidiadau i'r casgliadau, neu i unrhyw beth a gynhwysir gan y cyngor o ran y camau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, er mwyn cynyddu i ba raddau y bydd yn cwrdd â'r gofyniad perfformiad yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

3.4.8.15.4 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi, yn yr adroddiad gyda rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**.**

**3.4.8.16~~5~~ Asesiad o berfformiad gan Banel**

3.4.8.16.1 O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i’r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3.4.8.16.2 Rhaid i’r cyngor gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf.

3.4.8.16.3 Rhaid i’r cyngor drefnu bod drafft o’i ymateb i’r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i’w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i’r pwyllgor hwnnw wedyn

adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

3.4.8.16.4 Os nad yw'r cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad yn ei ymateb terfynol a'r rhesymau pan na wnaethpwyd y newid ganddo.

**3.4.8.175.10 Arolygiad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol**

3.4.8.17.115.5 Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r cyngor, neu efallai nad yw'r cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.17.215.6 Pe bai gofyn i'r cyngor ymateb i adroddiad a gyhoeddir yn unol â pharagraff 3.4.8.17.1115.5 uchod, rhaid i'r cyngor sicrhau bod drafft o'r ymateb ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i'r pwyllgor adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiad a wnaed mewn ymateb i ba gamau, os o gwbl, y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

3.4.8.17.315.7 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi, yn yr ymateb gyda rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**3.4.8.15.8 Atodiad A – Adroddiadau, Rheoliadau a Pholisïau a Ystyriwyd**

*Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu*, CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications

- *Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu* , CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus* (PSIAS) a'r *Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol* ategol ar gyfer Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig (LGAN)
- Siarter Archwilio Mewnol Chwefror 2021
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn benodol, Adran 85
- Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Llywodraeth Cymru, 2012
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018
- *Datganiad ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus*, CIPFA, 2019
- *Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol*, CIPFA, 2016
- *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Côd Ymarfer a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-Sectoraidd* , CIPFA, Argraffiad 2017
- *Côd Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd* , CIPFA, 2014

- ~~Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn~~
- ~~Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021~~

This page is intentionally left blank


| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 19 Ebrill 2022 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |


## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 1 Ebrill 2022 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 1 Chwefror 2022, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.




# DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

## EBRILL 2022


Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CONTENTS

GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF ______ 3

Adolygiad dilyn i fyny cyntaf 'Taliadau - Cynnal Cyflenwyr' a 'Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg' ______ 3

Adennill Mân Ddyledion y Cyngor ac effaith Covid-19 ______ 4

GWAITH AR Y GWEILL ______ 6

CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL ______ 7

BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022-23 A THU HWNT ______ 8

Capasiti Presennol ______ 8

Blaenoriaethu Tymor Byr/Canolig ______ 8

Blaenoriaethau mwy Hirdymor ______ 8

ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 1 EBRILL 2022 ______ 9

# GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **tri** darn o waith yn ystod y cyfnod dan sylw, a gwelir crynodeb ohonynt isod:

| Teitl | Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygiad dilyn i fyny cyntaf 'Taliadau - Cynnal Cyflenwyr' a 'Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg' | d/b | Mawrth 2022 | Sicrwydd Cyfyngedig | 0 | 2 | 8 | 10 |

## Adolygiad dilyn i fyny cyntaf 'Taliadau – Cynnal Cyflenwyr' a 'Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg'

| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 2 | Sylweddol |
| | 8 | Cymedrol |

3. *Yn unol â'n protocol, rydym wedi darparu copi o'r adroddiad llawn a'r cynllun gweithredu i aelodau'r Pwyllgor a'r Deilydd Portffolio Cyllid.*

4. Cynhaliom ddau adolygiad yn ystod 2020/21, a oedd yn canolbwyntio ar brosesau'r Cyngor ar gyfer talu anfonebau.

5. Yn dilyn ein hadolygiad cyntaf, 'Taliadau - Cynnal a Thalu Cyflenwyr' ym mis Ionawr 2021 fe gwblhaom waith pellach yn y maes hwn ac fe gyhoeddom adroddiad ar 'Anfonebau Dyblyg ac Adennill Taliadau Dyblyg' ym mis Mai 2021.

6. Roedd y ddau adroddiad yn rhoi Sicrwydd Cyfyngedig, a chytunwyd ar gynlluniau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Gan fod nifer o'r risgiau a chamau gweithredu dilynol yn gysylltiedig, fe gynhaliom adolygiad cyfunol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022.

7. Daw ein hadolygiad dilynol i'r casgliad er bod y timau Cyllid a Thaliadau wedi gwneud rhywfaint o waith i fynd i'r afael â'r risgiau a godwyd yn ystod ein harchwiliadau gwreiddiol, mae mwyafrif y camau gweithredu a gytunwyd yn dal heb eu cwblhau. Rydym yn cydnabod awydd clir y timau i wneud gwelliannau; fodd bynnag, mae problemau staffio a recriwtio o fewn y tîm Taliadau, yn ogystal â'r gwaith ychwanegol sy'n cael ei greu gan Wasanaethau sydd ddim yn dilyn y prosesau caffael cywir, yn effeithio ar eu gallu i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

8. O'r 13 o faterion/risgiau a nodwyd yn ystod ein dau archwiliad gwreiddiol, mae'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â thri, ac felly mae 10 yn weddill. Yn sgil adolygu'r matrics ar gyfer rheoli risgiau strategol yn ddiweddar, rydym wedi addasu graddfeydd y materion/risgiau i adlewyrchu'r archwaeth risg bresennol ar gyfer y risgiau strategol. Hefyd, mae'r raddfa risg wedi'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw gamau a gymerwyd hyd yma sydd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Fodd bynnag, gan fod nifer o faterion/risgiau yn dal yn weddill ac oherwydd diffyg cynnydd mewn meysydd allweddol, ni allwn gynyddu'r raddfa sicrwydd o Sicrwydd Cyfyngedig ar hyn o bryd.

9. Felly, byddwn yn cynnal adolygiad dilyn i fyny pellach ym mis Tachwedd 2022, i gadarnhau pa un ai a oes unrhyw gynnydd wedi bod o ran mynd i'r afael â'r risgiau sydd yn weddill, a pha un ai a yw'r gwelliannau i'r broses daliadau wedi cael eu sefydlu ledled y Cyngor.

## Adennill Mân Ddyledion y Cyngor ac effaith Covid-19

10. Fe gyflwynom adroddiad ar yr adolygiad o'r uchod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2021. Fe roesom raddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig' i'r gwaith, gan nodi wyth risg a nifer o gamau gweithredu a gytunwyd i fynd i'r afael â hwy. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad gan Archwilio Mewnol ar y cynnydd o ran mynd i'r afael â'r risgiau hyn yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill 2022.

11. Mewn ymateb i'r adroddiad gwreiddiol, comisiynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 gwmni ymgynghorol, CIWB, i weithio gyda'r gwasanaeth i fynd i'r afael â'r Materion/Risgiau a godwyd.

12. Fel rhan o'r diweddariad cynnydd, fe wnaethom gwrdd â'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau ac adolygu dogfennau allweddol mewn perthynas â'r prosiect ymgynghoriaeth. Mae'r prif bwyntiau i'w nodi ar y cynnydd presennol fel a ganlyn:

- Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau wedi cytuno y bydd CIWB yn ymdrin â'r prosiect fesul cam, ac mai'r dull a ffafrir ar gyfer sicrhau gwelliannau effeithlonrwydd yw dull sy'n seiliedig ar ddatblygu'r systemau a phrosesau presennol, yn hytrach na newidiadau mawr i brosesau presennol.

- Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi darparu rhestr tasg ar gyfer CIWB, sy'n diffinio'r gweithgareddau hynny sydd angen eu hadolygu ar frys, sef:

  - gwella cysoniadau incwm ysgolion, a

  - gwella effeithlonrwydd cysoniadau a phrosesau incwm Canolfannau Hamdden / Môn Actif.

- Er nad yw wedi'i raglennu ar hyn o bryd, mae Cynllun Cyflawni'r Prosiect yn cydnabod tasgau pellach yn ymwneud ag incwm meysydd parcio a dogfennu prosesau / gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer mân ddyledwyr.

13. Mae tasgau'r prosiect yn ymwneud yn bennaf â'r broses cysoni incwm, sydd yn allweddol er mwyn gwella cywirdeb y system dyledwyr. Bydd hyn yn arwain at wahardd llai o gyfrifon a chanolbwyntio mwy ar adennill dyledion.

14. Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi cadarnhau y bydd y Gwasanaeth yn recriwtio Rheolwr Busnes yn fuan iawn. Bydd y rôl yn darparu adnodd ychwanegol i gefnogi a hwyluso gwelliannau perfformiad ar draws y Gwasanaeth Adnoddau, yn cynnwys yr adain Incwm.

15. Hefyd, dylai penodi Rheolwr Adennill fel rhan o'r ailstrwythuriad arfaethedig o fewn yr adain Refeniw a Budd-daliadau leihau rhywfaint o'r llwyth gwaith a gwella effeithlonrwydd o fewn y Tîm Incwm.

16. Dylai'r penodiadau hyn ynghyd a chanlyniad y prosiect ymgynghoriaeth helpu i fynd i'r afael â'r materion/risgiau a nodwyd yn ystod ein hadolygiad cychwynnol. O ganlyniad, rydym wedi'n sicrhau y bydd y Cyngor mewn sefyllfa gadarnach i adennill cymaint o ddyledion â phosibl ac y bydd yn parhau i drin pobl a busnesau'n deg ar yr un pryd.

17. Byddwn yn rhoi amser i'r tîm sefydlu'r prosesau newydd, a bydd ein prawf dilynol ffurfiol, ym mis Hydref 2022, yn penderfynu a yw'r Cyngor wedi lliniaru'r holl Faterion/Risgiau a godwyd.

# GWAITH AR Y GWEILL

18. Mae’r archwiliadau a ganlyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd:

| Maes Archwilio | Cyf Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwasanaeth | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|---|---|
| Pensiynau Athrawon - Rhan 1 | d/b | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Gwaith maes |
| Rheoli’r risg o dwyll a llygredd yn y drefn gaffael | YM46[1] | Adnoddau | Cofrestr Risgiau Corfforaethol, Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24 a chodwyd y mater yn ystod ymchwiliad | Gwaith maes (gohiriwyd tra bod yr archwiliad i Bensiynau Athrawon yn mynd rhagddo) |
| Recriwtio a Chadw | YM2 | Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Gwaith sgopio |
| Newid yn yr Hinsawdd a Chynaladwyedd | YM13 | Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Gwaith sgopio |
| Trefniadau’r Cyngor ar gyfer darparu tai addas yn lleol | YM9 | Gwasanaethau Tai | Cofrestr Risgiau Strategol | Gwaith maes |
| Gwendidau a Rheoli Pats (Archwiliad TG) | YM4 | Trawsnewid Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Gwaith maes |
| Adolygiad Dilyn i Fyny Cyntaf o Barhad Gwasanaeth TGCh (Gwe-rwydo) | YM4 | Trawsnewid Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol / Adolygiad Dilyn i Fyny Cyntaf | Gwaith maes |

[1] Cyfeirnod yn yr hen gofrestr risgiau corfforaethol

# CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL

19. Mae'r gwaith i gynorthwyo gwasanaethau i roi'r camau sy'n weddill ar waith yn parhau. Mae'r dangosfwrdd '4action' yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o statws y camau gweithredu ar 1 Ebrill 2022.

20. Ar hyn o bryd mae tri o'r camau'n hwyr (0 Sylweddol; 3 Cymedrol), ac maent yn berthnasol i'r gwasanaeth Adnoddau. Maent yn ymwneud â 'Materion/Risgiau' a godwyd mewn un archwiliad:

- Proses Gadawyr

21. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i'w cynorthwyo i roi'r camau gweithredu ar waith.

22. Cyflwynwyd adroddiad manylach ar yr holl gamau gweithredu sy'n weddill i'r cyfarfod hwn yn ogystal.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022-23 A THU HWNT

## Capasiti Presennol

23. Mae ein Uwch Archwilydd newydd, a ddechreuodd ar 13 Rhagfyr 2021, wedi gwneud cynnydd sylweddol ac mae'n datblygu'n gyflym. Mae hyn yn golygu bod y tîm bron yn gyflawn, gyda dim ond hanner swydd gyfwerth ag amser llawn yn parhau i fod yn wag, oherwydd gweithio'n hyblyg. Fodd bynnag, mae un aelod o staff yn parhau i fod ar absenoldeb hirdymor.

## Blaenoriaethu Tymor Byr/Canolig

24. Yn Ionawr 2022, cynhaliodd yr UDA adolygiad sylweddol o'r Gofrestr Risgiau Strategol fel y mae'n cael ei galw erbyn hyn. Ein blaenoriaeth gyntaf yw adolygu'r risgiau gweddilliol 'coch' ac 'ambr' nad ydym wedi eu hadolygu eto, neu nad ydym wedi eu hadolygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ogystal â pharhau i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i geisiadau gan wasanaethau am gymorth neu sicrwydd, ac ymateb i ymchwiliadau.

25. Ar hyn o bryd, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn datblygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2022-23 ar y cyd â'r UDA a phenaethiaid gwasanaeth. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2022, i'r pwyllgor newydd ei ystyried.


26. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a monitro camau i fynd i'r afael â materion/risgiau archwilio mewnol sy'n weddill.


27. Byddwn yn cyfrannu at y rhaglen anwytho ar gyfer aelodau etholedig ac aelodau lleyg newydd, yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022.


## Blaenoriaethau mwy Hirdymor


- Cyflawni'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24, yn cynnwys parhau i roi sylw i argymhellion Archwilio Cymru sydd wedi'u cynnwys yn eu hadroddiad 'Gwella ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru'.
- Gweithio â chydweithwyr yn y Tîm Perfformiad i wella'r gwaith mapio sicrwydd ledled y cyngor a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Grŵp Adolygu Perfformiad.
- Paratoi ar gyfer yr Asesiad Ansawdd Allanol ym mis Mehefin 2022.


# ATODIAD 1 – CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 1 EBRILL 2022





## Outstanding Red Issues/Risks

| ID | Summary |
| --- | --- |

0 of 0

## Outstanding Limited Assurance Reports

| Audit Title | Count |
| --- | --- |
| Payments - Supplier Maintenance 202107 | 9 |
| Identification of Duplicate Invoices and Recovery of Duplicate Payments 202118 | 6 |
| ICT Service Continuity (Phishing) 202123 | 2 |
| Recovering Council Debt 202110 | 8 |

## Outstanding Amber Issues/Risks

| ID | Summary |
| --- | --- |
| 4148 | Business Continuity 3 - Our testing identified a lack of quality assurance activity over corporate and service business continuity plans and key... |
| 4157 | IT Resilience 2 - There is a lack of continuity and co-ordination between the Council's corporate business continuity plans and the IT disaster... |
| 4212 | Financial Resilience 2 - Progress with undertaking an exercise to map sources of assurance to support the Council's governance framework and ensure... |
| 6024 | Payments Supplier Maintenance 2 - Procedure notes exist, however, they have not been updated for a number of years and do not include the process... |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| **Dyddiad:** | 19 Ebrill 2021 | |
| **Pwnc:** | 'Materion/Risgiau' sy'n parhau i fod angen sylw | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk | |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk | Nanette Williams<br>Prif Archwiliwr<br>01248 751809<br>NanetteWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n gosod cyfrifoldeb arno i fonitro gweithrediad y camau y cytunwyd arnynt. Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar statws a manylion y risgiau sy'n parhau i fod angen sylw a godwyd gan Archwilio Mewnol. | | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae Archwilio Mewnol, ar ran y Cyngor, yn monitro'r materion a'r risgiau a nodir yn ystod gwaith archwilio drwy ei system tracio camau gweithredu, 4action.

1.2. Mae'r dangosfwrdd yn rhoi ciplun mewn amser real o'n perfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â'r camau gweithredu sydd yn parhau i fod angen sylw ac mae'n hwyluso'r gwaith o dracio ac adrodd ar yr wybodaeth hon yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn rheolaidd â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel rhan o'i diweddariadau archwilio mewnol.

1.3. Yn ychwanegol i hyn, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn am adroddiad manwl, ar wahân sy'n amlinellu ein perfformiad cyffredinol wrth fynd i'r afael â'r camau gweithredu archwilio, ddwywaith y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021, fe ystyriodd a phenderfynodd y Pwyllgor ar y manylion y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad, i gwrdd â'i anghenion sicrwydd yn y maes hwn.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn:

- nodi cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' Archwilio



# RISGIAU/MATERION SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW

## EBRILL 2022

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

Nanette Williams BA (Anrh) MSc CMIIA, Prif Archwilydd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

**CYFLWYNIAD** ______ 1
**PERFFORMIAD PRESENNOL** ______ 2
**ATODIAD 1: STATWS MANWL Y MATERION/RISGIAU 'SYLWEDDOL' SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW** ______ 5

# CYFLWYNIAD

1. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi cyfrifoldeb arno i fonitro'r modd y caiff y camau gweithredu y cytunir arnynt eu rhoi ar waith o ganlyniad i waith Archwilio Mewnol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad manwl ddwywaith y flwyddyn, yng nghyfarfod mis Ebrill a mis Medi, sy'n dangos perfformiad y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r camau gweithredu sydd heb eu cyflawni.

2. Rydym wedi bod yn defnyddio'r fersiwn newydd ac uwchraddedig o system tracio camau gweithredu'r Cyngor, sef y system 4action, ers dwy flynedd erbyn hyn. Rydym yn falch o adrodd bod y system newydd wedi llwyddo i wella ein gwaith dilyn i fyny mewnol a'n prosesau tracio camau gweithredu.

3. Rydym wedi parhau i ddatblygu a mireinio ein dangosfwrdd, sydd yn rhoi ciplun mewn amser real o'n perfformiad presennol wrth fynd i'r afael â rhai o'r camau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw a hwyluso tracio ac adrodd ar yr wybodaeth hon yn effeithiol. Rydym yn parhau i fonitro camau gweithredu 'hwyr' ac felly'n gallu cael diweddariadau prydlon gan reolwyr o ran y cynnydd a wneir wrth fynd i'r afael â hwy.


4. Rydym hefyd wedi datblygu dangosfwrdd gwasanaeth pwrpasol i gynorthwyo'r Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a darparu diweddariadau ar eu camau gweithredu. Rydym wrthi'n peilota hyn gyda'r gwasanaeth Adnoddau ac os yn llwyddiannus byddwn yn ei gyflwyno ledled y Cyngor yn ystod 2022-23. Yn anffodus, mae'r argyfwng COVID-19 wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflwyno'r system 4action newydd i'n gwasanaethau a darparu hyfforddiant ayb er mwyn i reolwyr allu defnyddio cyfleusterau'r system yn llawn. Wrth i'r pandemig gilio byddwn yn parhau â'r gwaith.

# PERFFORMIAD PRESENNOL


5. Mae'r pum graff canlynol yn dangos sefyllfa'r camau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw ledled y Cyngor ar 31 Mawrth 2022. Mae diweddariad statws yr 17 mater/risg 'sylweddol' sy'n weddill hefyd ar gael yn Atodiad 1. Yn anochel, dros y flwyddyn ddiwethaf mae effaith yr argyfwng COVID-19 ar rai gwasanaethau wedi effeithio ar eu gallu i fynd i'r afael â'r camau gweithredu a oedd yn parhau i fod angen sylw ganddynt.

6. Dylid nodi na chodwyd un rhyw faterion/risgiau 'Coch' yn ystod y flwyddyn ac nad oes unrhyw faterion/risgiau 'Coch' sy'n parhau i fod angen sylw.

1




2





7. Ar 31 Mawrth 2021, mae 62 o gamau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw'n cael eu tracio yn y system 4action. O'r rhain mae 17 yn 'sylweddol' (ambr) a 45 yn 'gymedrol' (melyn) o ran blaenoriaeth risg, fel y dangosir yng ngraff 1.

8. Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i fonitro'r holl gamau gweithredu a'u dilyn i fynd â rheolwyr i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol. Ar hyn o bryd mae tri cham gweithredu 'hwyr' oherwydd eu bod wedi cyrraedd y dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau, fel y gwelir yn llun rhif 2.


9. Mae pob un yn 'gymedrol' o ran effaith ac maent yn ymwneud â Chyflogau mewn perthynas â phrosesu cofnodion staff sydd yn gadael cyflogaeth y Cyngor; sef monitro gordaliadau cyflog a phrosesau adennill dilynol, prosesau dilysu ar gyfer gwneud taliadau i berthnasau gweithwyr sydd wedi marw, a gwelliannau cyffredinol i brosesau gadawyr er mwyn lleihau gwallau.

10. Rydym yn ymwybodol o'r problemau staffio a recriwtio parhaus yn y rîm Taliadau, sydd yn golygu bod y gwaith ychwanegol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r materion/risgiau hyn yn achosi her. Mae'r tîm hefyd yn wynebu pwysau ychwanegol oherwydd prosesau ariannol diwedd blwyddyn, a gweinyddu'r ôl-daliadau mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog i staff a gytunwyd yn genedlaethol yn ddiweddar. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r gwasanaeth i sicrhau yr eir i'r afael â'r materion/risgiau yn llwyddiannus.

3




4




11. Mae'r graffiau uchod yn dangos statws presennol yr holl gamau gweithredu h.y. pa un ai a ydynt 'ar waith'; 'heb gychwyn' neu 'wedi'i gyflawni' os ydi'r cam gweithred wedi'i gwblhau. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dilysu pob cam gweithredu sydd 'wedi'i gyflawni' i sicrhau ein bod yn fodlon bod y risg a nodwyd yn wreiddiol wedi'i dileu o ganlyniad i'r camau a gymerwyd gan y rheolwyr.


12. Mae graff 3 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu (waeth beth fo'r dyddiad terfyn a gytunwyd gan y rheolwyr). Mae'n dangos bod y rheolwyr wedi mynd i'r afael â 56% ohonynt. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi cadarnhau 55% o'r rhain. Mae'r 1% sydd yn weddill yn ymwneud ag archwilio trefniadau Parhad Gwasanaeth TGCh (Gwe-rwydo), a byddwn yn dilyn y rhain i fyny'n ffurfiol ym mis Mai 2022. Byddwn yn dilysu'r camau gweithredu hyn wrth gyflawni'r gwaith hwn.

13. Mae mwyafrif y camau gweithredu sydd 'heb gychwyn' yn ymwneud â dau archwiliad a gwblhawyd yn ffurfiol yn ddiweddar sef 'Llywodraethu Gwybodaeth' a 'Rheoli Trwyddedau Meddalwedd'. Nid yw'r materion/risgiau a nodwyd o ganlyniad i'r archwiliadau hyn wedi cyrraedd y dyddiad cwblhau disgwyliedig. Pan fydd y dyddiadau cwblhau yn nesáu, byddwn yn gofyn am ddiweddariadau gan y rheolwyr i weld pa gynnydd a wnaed.

14. Ar y llaw arall, mae graff 4 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. Mae'n dangos bod 96% wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad targed. O'r rhain mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi dilysu bron iawn pob un, fodd bynnag fel y nodir uchod, mae'r camau gweithredu ynghlwm ag archwilio trefniadau Parhad Gwasanaeth TGCh (Gwe-rwydo) yn dal heb eu dilysu a byddwn yn dilyn hyn i fyny'n ffurfiol yn fuan. Mae'r canran bach sy'n dangos statws 'heb gychwyn' neu 'ar waith' yn ymwneud â chamau gweithredu hwyr mewn perthynas â Chyflogau yn gysylltiedig â phrosesau gadawyr, fel y nodir yn yr adroddiad.

15. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, ar adegau rydym yn ymestyn y dyddiadau targed yn achos rhai camau gweithredu, ond dim ond os oedd gan y gwasanaeth reswm dilys dros yr estyniad e.e. ei bod hi'n amlwg nad oedd y dyddiad targed gwreiddiol yn gyraeddadwy, gan fod angen llawer iawn mwy o waith i fynd i'r afael â'r mater/risg. Mae hyn wedi bod yn berthnasol iawn yn ystod yr argyfwng COVID-19 a'r cyfnod adfer cyfredol, gan fod gwasanaethau wedi gorfod canolbwyntio ar ymateb a dod dros y pandemig fel mater o flaenoriaeth.

5




16. Fel y nodir uchod, mae 62 o gamau gweithredu heb eu cyflawni'n llawn o hyd.

17. Maent yn ymestyn rhwng 2017/18 a 2021/22. Er bod graff 5 yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae tri 'hen' gam gweithredu, sy'n mynd yn ôl i 2017/18 sydd heb eu cyflawni'n llawn gan y rheolwyr. Maent yn ymwneud â gwelliannau cyffredinol ac effeithlonrwydd o fewn prosesau'r Cyngor ar gyfer Mân Ddyledwyr.

18. Mae'r rhain yn 'gymedrol' neu 'felyn' o ran blaenoriaeth risg, ac mae'r gwaith i fynd i'r afael â hwy yn rhan o'r prosiect ymgynghoriaeth sydd ar y gweill o fewn y Tîm Incwm ar hyn o bryd, a'r gwaith ailstrwythuro arfaethedig o fewn yr adain Refeniw a Budd-daliadau. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu manylion pellach ynglŷn â'r gwaith hwn yn ei diweddariad Archwilio Mewnol.

19. Dylid nodi nad oedd unrhyw faterion/risgiau 'sylweddol' neu 'ambr' yn dyddio'n ôl ymhellach na 2019/20, fel y gwelir uchod. Mae hyn yn dangos bod rheolwyr yn blaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â risgiau â blaenoriaeth uwch.

20. Mae diweddariad statws o'r 17 mater/risg 'sylweddol' neu 'ambr' sy'n parhau i fod angen sylw ac sy'n cael eu tracio yn y system 4action ar gael yn Atodiad 1.

21. Byddwn yn ymdrechu i ddilyn yr holl gamau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cwblhau.

# ATODIAD 1: STATWS MANWL Y MATERION/RISGIAU 'SYLWEDDOL' SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Parhad Busnes** | 2019/20 | Ionawr 2020 | 30/06/22 | **Rhesymol** | Nodwyd nad oedd ansawdd cynlluniau corfforaethol a pharhad busnes gwasanaethau a dogfennau allweddol yn cael ei sicrhau. | 50% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Llawer o'r gwaith ynghlwm â mynd i'r afael â''r mater/risg yn ddibynnol ar y gwaith a amlinellir isod mewn perthynas ag alinio Cynlluniau Parhad Busnes gwasanaethau a threfniadau adfer TG mewn argyfwng. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r Rheolwr Gweithredol (Uwch Dîm Arweinyddiaeth) bellach yn gyfrifol am y gwaith yn sgil ymddeoliad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r gwaith ychwanegol gan y gwasanaeth cynllunio rhag argyfwng rhanbarthol i adolygu'r templedi Cynllunio Parhad Busnes a darparu hyfforddiant ar sut i'w defnyddio yn mynd rhagddo. |
| **Cadernid TG** | 2019/20 | Chwefror 2020 | 3030/06/22 | **Rhesymol** | Diffyg parhad a chydlyniant rhwng cynlluniau parhad busnes corfforaethol y Cyngor a'r cynllun adfer TG mewn argyfwng. | 80% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Mae'r gwaith i alinio'r cynlluniau Parhad Busnes Corfforaethol â'r cynllun Adfer TG Mewn Argyfwng yn mynd rhagddo. Fel y nodir uchod mae'r Rheolwr Gweithredol (Uwch Dîm Arweinyddiaeth) wedi gofyn am hyfforddiant gan y gwasanaeth cynllunio rhag argyfwng rhanbarthol ar ddefnyddio'r templedi cynllunio parhad busnes diwygiedig. |
| **Cadernid Ariannol** | 2019/20 | Ebrill 2020 | 30/06/22 | **Rhesymol** | Mae'r cynnydd wrth gynnal yr ymarfer i fapio ffynonellau sicrwydd i gefnogi fframwaith llywodraethu'r Cyngor a sicrhau ei fod yn parhau i dderbyn sicrwydd digonol ledled ei wasanaethau wedi bod yn araf. Mae hyn yn bwysig iawn mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir drwy bartneriaeth, contractau a dulliau darparu gwasanaeth amgen. | 50% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Mae'r adolygiad mapio sicrwydd ledled y sector llywodraeth leol yng Nghymru wedi'i gwblhau ac mae nifer o argymhellion wedi'u gwneud mewn ymateb i'w ganfyddiadau. Mae'r Cyngor wedi creu a sefydlu grŵp Adolygu Perfformiad ac mae nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal hyd yma. Yn ddiweddar mae'r grwp wedi canolbwyntio ar brosesau Herio perfformiad, fodd bynnag bydd y gwaith mapio sicrwydd yn ailgychwyn gan fod y gwaith hwn wedi'i gwblhau. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Taliadau Cynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 30/11/22 | **Cyfyngedig** | Mae'r nifer uchel o anfonebau a dderbynnir heb rif archeb prynu yn creu llwyth gwaith diangen i'r tîm Taliadau yn ogystal â mynd yn groes i'r Rheolau Trefniadaeth Ariannol, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol codi archeb prynu ar gyfer pob anfoneb ar wahân i anfonebau cylchol neu anfonebau cyfleustodau, cyn neu wrth archebu. Wrth brofi'r broses amlygwyd bod nifer o archebion prynu'n cael eu codi'n ôl-weithredol, h.y. wedi dyddiad yr archeb. | Fe gynhaliom adolygiad dilyn i fyny ffurfiol o Daliadau Cynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg rhwng mis Ionawr a Mawrth 2022. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod Gwasanaethau'n dal i godi archebion heb rifau archeb priodol, ac mae hyn yn achosi llwyth gwaith ychwanegol i'r tîm Taliadau.<br><br>Byddwn yn darparu diweddariad manylach i'r Pwyllgor ar y cam gweithredu hwn fel rhan o'r Adroddiad Dilyn i Fyny yn y maes hwn. |
| **Taliadau Cynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 30/11/22 | **Cyfyngedig** | Nid yw staff mewn gwasanaethau'n codi archebion prynu'n gywir, h.y. maent yn cynnwys llinell ar wahân ar gyfer nwyddau neu wasanaethau unigol a archebir i'w galluogi i farcio a derbyn pob un yn unigol. Mae hyn yn golygu bod anfoneb a dderbynnir am archeb sydd wedi'i derbyn yn rhannol yn cael ei pharu a'i thalu'n awtomatig heb unrhyw ymyrraeth gan y gwasanaeth neu'r tîm Taliadau. | Fel y nodwyd uchod, fe gynhaliom adolygiad dilyn i fyny o Daliadau Cynnal Cyflenwyr a Thaliadau Dyblyg rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad nad ydi Gwasanaethau'n codi archebion yn y modd cywir a bod y system Taliadau'n gwrthod nifer uchel o anfonebau.<br><br>Byddwn yn darparu diweddariad manylach i'r Pwyllgor ar y cam gweithredu hwn fel rhan o'r Adroddiad Dilyn i Fyny yn y maes hwn. |
| **Panel Rhiantu Corfforaethol** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 30/04/22 | **Rhesymol** | Er yn 2017 y cafodd ei nodi fel fframwaith angenrheidiol i alluogi a sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau rhiantu corfforaethol, nid yw'r Cyngor wedi cwblhau a chyhoeddi ei 'Strategaeth ar gyfer Plant Mewn Gofal a Phlant sy'n Gadael Gofal', ac nid yw'r Cyngor ychwaith wedi mynegi ei ymrwymiad neu 'addewid' i'r plant a phobl ifanc sydd dan ei ofal, a oedd hefyd wedi ei nodi fel blaenoriaeth yn 2017. | 50% o'r weithred wedi'i chwblhau. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol newydd ym mis Mawrth 2022. Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant yn y maes hwn i bob aelod yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Bydd y fersiwn terfynol o'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Panel Rhiantu Corfforaethol yn dilyn yr etholiadau. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Parhad Gwasanaeth TGCh (Gwerwydo)** | 2020/21 | Mai 2021 | 30/04/22 | Cyfyngedig | Canlyniad y prawf gwe-rwydo a gomisiynwyd gan TGCh wedi dangos bod gormod o ddefnyddwyr wedi ymateb i e-byst gwe-rwydo, er eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth seiber. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2022 |
| **Parhad Gwasanaeth TGCh (Gwerwydo)** | 2020/21 | Mai 2021 | 30/04/22 | Cyfyngedig | Nid oes proses ffurfiol ar gyfer uwchgyfeirio defnyddwyr sydd ddim yn cydymffurfio ag ymarferion diogelwch seiber, ble mae'n amlwg nad ydi hyfforddiant ac ymwybyddiaeth diogelwch gwybodaeth a seibr yn cael unrhyw effaith. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2022 |
| **Dyraniadau Tai** | 2021/22 | Medi 2021 | 30/04/22 | Rhesymol | Diffyg aliniad rhwng y newidiadau diweddar i bolisïau dyraniadau Tai mewn perthynas â chydlyniad cymunedol a mentrau cynaliadwyedd a'r mesurau a dangosyddion perfformiad yn y maes hwn. | 50% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Mae'r Gwasanaeth Tai wedi sefydlu Grwp Eiddo Gwag i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn yr archwiliad. Yn ddiweddar cyflwynwyd papur a oedd yn ystyried y ffordd orau o fesur perfformiad yn y maes hwn i'w ystyried gan y grwp. Unwaith y bydd y grwp wedi penderfynu'n derfynol ar y dangosydd perfformiad newydd, bydd yn cael ei gynnwys a'i dracio fel rhan o adroddiad perfformiad chwarterol y Gwasanaeth. |
| **Dyraniadau Tai** | 2021/22 | Medi 2021 | 30/04/22 | Rhesymol | Nid yw'r Cyngor yn adrodd ar ei berfformiad ar rentu eiddo newydd ac eiddo a 'brynwyd yn ôl', h.y. hen stoc dai cyngor y mae'r Cyngor yn eu prynu'n ôl gan berchnogion preifat. | 50% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Cynghorodd y Gwasanaeth Tai y bydd mesurydd perfformiad ar gyfer monitro'r broses o gael eiddo a brynwyd yn ôl i safon lle gellir ei osod yn cael ei gynnwys fel rhan o adroddiad perfformiad chwarterol y Gwasanaeth o fis mai 2022 ymlaen. |
| **Dyraniadau Tai** | 2021/22 | Medi 2021 | 30/04/22 | Rhesymol | Mae'r broses ymgeisio am dŷ yn aneffeithlon ac mae'n cyfrannu at oedi yn y broses eiddo gwag. | Gweithred heb gyrraedd y dyddiad cwblhau eto.<br>Fel y nodwyd uchod, mae'r Gwasanaeth Tai wedi sefydlu Grwp Eiddo Gwag i gydlynu a mynd i'r afael â'r risgiau a godwyd yn yr archwiliad. Mae'r Grwp yn cynnwys tîm rheoli'r Gwasanaeth Tai ac mae'n cwrdd yn fisol. Bydd y materion yn ymwneud â'r broses ymgeisio am dŷ yn cael eu hystyried fel rhan o waith y grwp ynghyd â chamau adferol. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adennill Mân Ddyledion y Cyngor** | 2021/22 | Tachwedd 2021 | 31/10/22 | **Cyfyngedig** | Er bod y system dyledwyr yn dangos lleihad yn nifer a chyfanswm gwerth yr anfonebau â statws 'adenilliad-ataliedig' ers yr adolygiad diwethaf, canfuom yn ystod ein profion bod y Tîm Incwm yn osgoi'r broses arferol. Mae'r Tîm Incwm yn atal y camau adennill drwy ymyrryd â llaw yn hytrach na defnyddio'r swyddogaeth 'adennill' sy'n ailgychwyn y broses adennill yn awtomatig ar ôl 30 diwrnod. | Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi comisiynu cwmni ymgynghorol, CIWB, i weithio gyda'r Tîm Incwm i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn yr archwiliad. Ar gais y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fe wnaethom adolygu'r prosiect ymgynghoriaeth, a'r gwaith pellach sydd ar y gweill gan y Gwasanaeth i wneud gwelliannau yn y maes hwn.<br><br>Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg yn darparu diweddariad manylach i'r Pwyllgor ar y gwaith prosiect ymgynghorol fel rhan o'r Diweddariad Archwilio Mewnol. |
| **Adennill Mân Ddyledion y Cyngor** | 2021/22 | Tachwedd 2021 | 31/10/22 | **Cyfyngedig** | Mae cyfuniad o fethiant i fynd ati'n rhagweithiol i adennill dyledion y Cyngor ac uwchgyfeirio achosion lle bo angen, ynghyd ag adleoli Swyddogion Adennill a rhoi'r gorau i adennill dyledion am chwe mis yn ystod y pandemig, wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol mewn dyledion sydd heb eu talu ers mis Mawrth 2020. | Fel yr uchod. |
| **Adennill Mân Ddyledion y Cyngor** | 2021/22 | Tachwedd 2021 | 31/10/22 | **Cyfyngedig** | Mae'r pandemig Covid-19 a materion technegol wedi effeithio ar y gwaith o fonitro perfformiad y gwasanaeth a graddfeydd casglu ar lefel gwasanaeth ac yn gorfforaethol. Hefyd, cyfyngedig fu'r gwaith adolygu ac adrodd ar berfformiad mewn perthynas â mân ddyledwyr ers 2019/20. | Fel yr uchod. |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | 2021/22 | Ionawr 2022 | 31/03/23 | **Rhesymol** | Mae modd i staff gael mynediad at raglenni Microsoft Office 365 y Cyngor, yn cynnwys Teams a SharePoint, ac felly at ddata personol a sensitif o bosib a gedwir gan y Cyngor, drwy ddyfeisiadau symudol personol wedi'u hamgryptio. | Dyddiad cwblhau'r weithred heb ddod i ben eto. |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | 2021/22 | Ionawr 2022 | 31/05/22 | **Rhesymol** | Nid yw canllawiau Caffael y Cyngor a dogfennau a thempledi atodol yn cynnwys canllawiau digonol ynglŷn ag ystyriaethau | Dyddiad cwblhau'r weithred heb ddod i ben eto. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | diogelu data ar gyfer swyddogion sy'n dyrannu contractau. | |
| **Rheoli Trwyddedau Meddalwedd** | 2021/22 | Ionawr 2022 | 31/12/22 | **Cyfyngedig** | Nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu map neu strategaeth ar gyfer ei systemau busnes hyd yma, er mwyn tanategu sut y bydd y Cyngor yn darparu ei wasanaethau digidol. Fe ddylai'r map neu'r strategaeth gynnwys eitemau megis gwerthwyr a chyflenwyr meddalwedd cymeradwy, meini prawf ar gyfer dethol gwerthwyr yn ogystal â gofynion lletya a chymorth (mewnol yn erbyn gwasanaethau cwmwl ac ati.) | Dyddiad cwblhau'r weithred heb ddod i ben eto. |

*Graddfa sicrwydd bresennol - un ai ar adeg yr archwiliad gwreiddiol neu yn dilyn adolygiad dilyn i fyny.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 19 Ebrill 2022 |
| **Pwnc:** | Blaenraglen Waith Ddangosol ar gyfer 2022-23 f1 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Darparu Blaenraglen Waith Ddangosol ar gyfer 2022-23 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |

## Cyflwyniad

1. Mae Blaenraglen Waith Ddangosol ynghlwm yn Atodiad A.

2. Mae'r rhaglen wedi'i ddatblygu gan ystyried cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r newidiadau canlyniadol i cylch gorchwyl y Pwyllgor.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

   - yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith Ddangosol a gynigir ar gyfer 2022-23 yn bodloni cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor yn unol â amodau gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor.

# Atodiad A – Blaenraglen Waith Ddangosol 2022-23

| Swyddogaeth Graidd | Mehefin 2022 | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | Rhagfyr 2022 | February 2023 | Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021-22 (3.4.8.3.1) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/ 3) | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio 2021-22 (3.4.8.4.4) | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2021-22 (3.4.8.5.1/2/3/4) | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2023-24) (3.4.8.5.3/4) | |

Tudalen 64

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Ddangosol 2022-23

| Swyddogaeth Graidd | Mehefin 2022 | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | Rhagfyr 2022 | February 2023 | Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-22 (3.4.8.9.4)<br><br>Adroddiad Sylwadau, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd (3.4.8.9.2/3) | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021-22 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/ 14/15) (3.4.8.6)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |

# Atodiad A – Blaenraglen Waith Ddangosol 2022-23

| Swyddogaeth Graidd | Mehefin 2022 | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | Rhagfyr 2022 | February 2023 | Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022 (3.4.8.11.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2022-23 (3.4.8.11.1/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisi 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2021-22 (3.4.8.13.1) | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.13.1) | | Adroddiad Yswiriant Blynyddol (3.4.8.13.1) |

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Ddangosol 2022-23

| Swyddogaeth Graidd | Mehefin 2022 | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | Rhagfyr 2022 | February 2023 | Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chywthu Chwiban 2021-22 (3.4.8.14.1/2) | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | Adolygiad o'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3) | | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[1] | | | | | | |



[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.